

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynllun Trafnidiaeth Lleol
# Cyngor Dinas Caerdydd

2015 - 2020



## Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cyngor Dinas Caerdydd 2015-2020


**1.0 Cyflwyniad .......... 3**

**2.0 Problemau, Cyfleoedd ac Ymyriadau .......... 12**

**3.0 Cyfnod Cynllun 2015-2020 .......... 31**

**4.0 Dyheadau Tymor Canolig a Thymor Hwy 2020-2030 .......... 56**

**5.0 Gwiriadau Statudol .......... 62**

**6.0 Ymgynghoriad .......... 65**

**7.0 Monitro a Gwerthuso .......... 74**

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Cwmpas a Chyfnod y Cynllun

1.1.1 Roedd Deddf Trafnidiaeth 2000 (diwygiwyd gan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006) yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau trafnidiaeth gael eu cynhyrchu gan bob un o bedwar consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol Cymru. Roedd y cynlluniau'n cynnwys rhaglenni darparu trafnidiaeth pum mlynedd i'w hadolygu'n barhaus. Arferai Caerdydd fod yn un o ddeg Awdurdod Lleol cyfansoddol Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA), y corff trafnidiaeth rhanbarthol a gynhyrchodd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh, 2010-2015). Diddymwyd y consortia ym mis Mawrth 2014, dyddiad sy'n nodi hefyd ddiwedd rhaglen darparu trafnidiaeth pum mlynedd CTRh SEWTA. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) ganllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) i'w gyflwyno ym mis Ionawr 2015. Yn unol â'r canllawiau hyn, bydd CTLlau yn disodli CTRhau. Fodd bynnag, mae LlC wedi nodi y dylai CTLlau ddiweddaru'r cynlluniau a'r blaenoriaethau a nodwyd yn rhaglenni pum mlynedd y CTRh.

1.1.2 Mae'r CTLl hwn yn nodi materion trafnidiaeth allweddol sy'n berthnasol i Gaerdydd, yr ymyriadau lefel uchel angenrheidiol i fynd i'r afael â'r rhain, a'r blaenoriaethau penodol i'r awdurdod lleol eu cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun (Rhaglen Pum Mlynedd y CTLl 2015-2020). Mae'r Cynllun hefyd yn amlinellu dyheadau tymor canolig a thymor hwy y Cyngor hyd at 2030. Y CTLl fydd y prif gyfeirnod ar gyfer cynigion am gyllid cyfalaf blynyddol gan Lywodraeth Cymru am seilwaith trafnidiaeth. Mae'r rhaglen arfaethedig a amlinellir yn y CTLl yn cynnwys seilwaith cerdded a beicio, rhwydwaith bysus a gwelliannau i gyffyrdd, cynlluniau Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd, cyfyngiadau 20mya a chynlluniau diogelwch ar y ffyrdd.

1.1.3 Mae'r CTLl yn adlewyrchu gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus, ynghyd â pharatoi mapiau yn nodi llwybrau presennol a llwybrau posibl ar gyfer y dyfodol.

## 1.2 Trafnidiaeth ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd

1.2.1 Mae Prifddinas-ranbarth Caerdydd (gweler Diagram 1.2 y Cynllun Trafnidiaeth Lleol isod) yn cynnwys poblogaeth o dros 1.4 miliwn, y disgwylir iddi barhau i dyfu'n sylweddol dros y degawdau nesaf. Caerdydd yw'r ganolfan drefol fwyaf yn y rhanbarth, yn cynnwys 26% o boblogaeth a 33% o swyddi'r rhanbarth. Megis mewn Dinas-ranbarthau eraill, disgwylir i'r twf cyflogaeth rhanbarthol

cryfaf fod yng Nghaerdydd, fel y ganolfan drefol fwyaf a phrifddinas Cymru. Fodd bynnag, bydd aneddiadau rhanbarthol allweddol eraill yn parhau i chwarae rôl bwysig fel lleoliadau cyflogaeth.

1.2.2 Er ei lwc ymddangosiadol dros y blynyddoedd diwethaf, mae cystadleurwydd Caerdydd wedi gwaethygu'n raddol dros amser o gymharu â 'Dinasoedd Craidd'[1] y DU, fel Manceinion, Bryste a Nottingham, gan ddirywio o 110% o'r GYC cyfartalog cenedlaethol fesul pen o'r boblogaeth yn 2001 i 102% yn 2011. Mae hyn ochr yn ochr â'r gwahaniaeth cynyddol rhwng perfformiad economaidd De-ddwyrain Cymru a rhanbarthau eraill y DU.

1.2.3 Mae'r 'Dinasoedd Craidd' a'u hardaloedd trefol ehangach, gyda'i gilydd, yn cyfrannu tua 27% o GDP (Cynnyrch Domestig Gros) y DU, o gymharu â chyfraniad Llundain o 22.5% o GDP y DU[2]. Mae eu hadfywiad a'u twf yn seiliedig ar ddull gweithredu dinas-ranbarthol i gynllunio trafnidiaeth sydd wedi galluogi datblygiad rhwydweithiau cludiant cyflym helaeth, modern yn darparu cysylltiadau cyflym a dibynadwy rhwng canol pob dinas a'i haneddiadau cysylltiedig. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth i dwf economaidd.

1.2.4 Mae Prifddinas-ranbarth Caerdydd, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2014, yn cynnig cyfle i efelychu llwyddiant dinasoedd yn Lloegr drwy ddatblygu'r cysylltiadau trafnidiaeth y mae eu hangen ar Ddinas Caerdydd i ffynnu a llywio economi rhanbarth ehangach De-ddwyrain Cymru.

1.2.5 Bydd angen ymyriadau sy'n mynd i'r afael â phrif heriau trafnidiaeth Caerdydd i gyflawni hyn:

**Pwysau ar y Rhwydwaith a Thagfeydd:** mae rhwydwaith trafnidiaeth y rhanbarth eisoes dan bwysau; mae bron 77,900[3] o bobl yn cymudo i Gaerdydd o'r tu allan i'r ddinas bob dydd (37% o weithlu Caerdydd). Mae 80% o'r rhain yn teithio i'r ddinas yn y car, a'r car preifat yw'r prif ddull o deithio i'r gwaith o fewn y ddinas hefyd - yn 2011 cymudodd 57% o drigolion Caerdydd yn y car. Mae hyn yn creu tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd sy'n cynyddu amser teithio ac yn lleihau dibynadwyedd o ran amser teithio.

**Pwysau Twf y Dyfodol:** Disgwylir i Brifddinas-ranbarth Caerdydd dyfu'n sylweddol dros y 25 mlynedd nesaf, gyda'r cynnydd rhagweledig mwyaf yng Nghaerdydd ei hun, o boblogaeth o 348,000 i 430,000 erbyn 2036, cynnydd o bron chwarter. Mae CDLl ar Adnau Caerdydd yn dyrannu tir ar gyfer tua 30,000 o gartrefi newydd a 40,000 o swyddi yng Nghaerdydd rhwng 2013 a 2026. Ochr yn ochr â'r cynnydd rhagweledig mewn cyflogaeth, disgwylir i hyn arwain at gynnydd net o 32% mewn traffig a chynnydd o 20% yn nifer y bobl sy'n cymudo

---

[1] Partneriaeth o brif ddinasoedd y DU y tu allan i Lundain. Mae'r aelodau'n cynnwys Birmingham, Bryste, Glasgow, Leeds, Lerpwl, Manceinion, Newcastle, Nottingham a Sheffield. Gyda'i gilydd, nhw yw'r ardaloedd economaidd mwyaf y tu allan i Lundain yn yr Alban a Lloegr.

[2] Adroddiad Interim i'r Grŵp Dinasoedd Craidd, Gorffennaf 2011

[3] Arolwg o'r Llafurlu, 2011

i’r gwaith. Er mwyn darparu ar gyfer y pwysau hyn, bydd angen rhoi blaenoriaeth i ymyriadau trafnidiaeth sy’n cefnogi cysylltiadau cynaliadwy rhwng Caerdydd a’r Ddinas-ranbarth.

1.2.6 Bydd buddsoddi yn y rhwydwaith trafnidiaeth rhanbarthol, yn arbennig y system trafnidiaeth gyhoeddus, yn allweddol i gefnogi twf disgwyliedig a hybu cystadleurwydd yr economi ranbarthol drwy:

- ddarparu capasiti trafnidiaeth newydd;
- gwella cysylltiadau mewn-ranbarthol rhwng aneddiadau allweddol a Chaerdydd;
- ehangu’r dalgylch marchnad lafur effeithiol ar gyfer busnesau, gan alluogi cwmnïau i recriwtio o sail sgiliau ehangach;
- gwella mynediad i amrywiaeth eang o gyfleoedd swyddi drwy ehangu cyrhaeddiad trafnidiaeth gyhoeddus;
- cynyddu capasiti cynhyrchu’r economi leol drwy gynyddu cysylltiadau a lleihau amseroedd teithio;
- gwella mynediad i farchnadoedd i gwmnïau;
- hwyluso twf clystyrau busnes yn y dinasoedd mwy (er enghraifft o amgylch Ardaloedd Menter a safleoedd datblygu), gan helpu i ysgogi cystadleuaeth ac arloesedd.

1.2.7 Ni all Dinas Caerdydd fynd i’r afael â’r heriau hyn ar ei phen ei hun. Yn wir, gan fod llawer o’r pwysau ar rwydwaith y ddinas yn deillio o aneddiadau y tu allan i Gaerdydd, mae'n hanfodol bod datblygiadau ac ymyriadau trafnidiaeth y tu allan i ffin weinyddol y ddinas yn cefnogi amcanion rheoli galw a newid moddol y ddinas drwy sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i deithio drwy ddulliau cynaliadwy. Mae sicrhau’r dull gweithredu ategol hwn yn allweddol i gyflawni’r blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad a dargedir: cefnogi twf economaidd, lleihau anweithgarwch economaidd, trechu tlodi ac annog teithio mwy diogel, iach a chynaliadwy.

1.2.8 O fewn y cyd-destun hwn, blaenoriaethir yr ymyriadau canlynol:

- Cynlluniau sy’n cefnogi ac yn ategu'r gwaith o ddarparu Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd
- Datblygu coridor bysus sy’n gwella amser teithio a dibynadwyedd o ran amser teithio
- Cyfleusterau deniadol, cyfleus a chyfforddus i deithwyr
- Cynlluniau sy’n ei gwneud hi’n rhwydd symud rhwng dulliau a gwasanaethau teithio
- Datblygu rhwydweithiau teithio llesol i annog mwy o bobl i gerdded a beicio ar gyfer teithiau lleol
- Cynlluniau sy’n lleihau damweiniau ffyrdd ac sy’n gwneud teithio drwy ddulliau llesol yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy deniadol.

# 1.2 Diagram Cynllun Trafnidiaeth Lleol



### 1.3 Cysylltiadau â Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

1.3.1 Bydd cynlluniau'r CTLl yn dod â gwelliannau mawr i seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy'r ddinas, a fydd yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru drwy helpu i:

- wella cysylltiadau rhwng Dinas Caerdydd a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd;
- cefnogi datblygiad Ardal Fenter Caerdydd;
- gwella mynediad cynaliadwy i swyddi a gwasanaethau ledled y ddinas, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig;
- creu aneddiadau newydd drwy'r Cynllun Datblygu Lleol, y gellir eu cyrraedd yn hwylus ar drafnidiaeth gynaliadwy.

1.3.2 Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol Cyngor Dinas Caerdydd, sydd wedi'u halinio'n agos ag agenda strategol Llywodraeth Cymru.

1.3.3 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor (2014-2017) yn nodi tair blaenoriaeth:

- Datblygiad economaidd fel sbardun i dwf a swyddi
- Addysg a sgiliau i bobl o bob oedran er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial a bod yn barod am gyflogaeth yn economi Caerdydd a thu hwnt
- Cefnogi oedolion, plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ar adeg o galedi.

1.3.4 **Cynllun Datblygu Lleol 2006 i 2026 (Cynllun ar Adnau 2013):** yn datgan y nod o ddiwallu anghenion y dyfodol a gwella mynediad i swyddi a gwasanaethau drwy sicrhau bod datrysiadau trafnidiaeth gynaliadwy ar gael a fydd yn sicrhau bod 50% o'r holl deithiau ar y rhwydwaith trafnidiaeth yn cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy.

1.3.5 At hynny, fel rhan o ymrwymiad Caerdydd i Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan 3% y flwyddyn, mae targed wedi'i osod i leihau CO2 gan 26% fesul pen o boblogaeth y ddinas erbyn 2020. Mae partneriaethau dinas-gyfan yn cael eu sefydlu gyda busnesau a sefydliadau lleol i gyflawni hyn. Fel y nodir yn 'Caerdydd Un Blaned' (CDC 2013), mae hyrwyddo mwy o ddefnydd o ddulliau teithio cynaliadwy yn allweddol i gyrraedd y targed hwn.

### 1.4 Adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac Astudiaethau

1.4.1 Mae'r Adran hon yn nodi'r cyd-destun rhanbarthol sy'n ffrâm i'r CTLl.

1.4.2 **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru (2010):** datblygwyd gan y cyn-gonsortiwm trafnidiaeth rhanbarthol ar gyfer de-ddwyrain Cymru (Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru – SEWTA). Nododd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) SEWTA flaenoriaethau trafnidiaeth ar gyfer y rhanbarth hwn. Roedd y weledigaeth ar gyfer 'System drafnidiaeth fodern, hygyrch, integredig a chynaliadwy ar gyfer De-ddwyrain Cymru sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hyrwyddo ffyniant i bawb ac yn diogelu'r amgylchedd; lle mae cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, a chludiant cynaliadwy yn ddewisiadau

teithio amgen go iawn.'

1.4.3 Roedd sicrhau mynediad cynaliadwy yn un o nodau canolog y cynllun. Un o nodau ehangach y cynllun oedd: "Hyrwyddo cynhwysiant a chydraddoldeb cymdeithasol drwy greu system drafnidiaeth sy'n ddiogel, hygyrch a fforddiadwy i bob rhan o'r gymuned." Roedd amcanion allweddol y cynllun yn cynnwys:

- Gwella mynediad i bawb i gyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau, gofal iechyd, addysg, twristiaeth a chyfleusterau hamdden;
- Lleihau twf traffig a thagfeydd a gwneud defnydd gwell o'r system ffyrdd bresennol;
- Gwella ansawdd, effeithlonrwydd a dibynadwyedd y system drafnidiaeth;
- Gwella cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy rhwng De-ddwyrain Cymru a gweddill Cymru, y DU ac Ewrop;
- Sicrhau bod datblygiadau yn Ne-ddwyrain Cymru yn hygyrch drwy drafnidiaeth gynaliadwy; a
- Gwneud trafnidiaeth gynaliadwy a chynllunio teithio yn gydran allweddol o gynlluniau adfywio.

1.4.4 Diddymwyd SEWTA ym mis Mawrth 2014 ac mae'r CTRh 5 mlynedd cyfredol yn dod i ben ym mis Mawrth 2015. Fodd bynnag, mae gweledigaeth ac amcanion CTRh SEWTA, ar y cyfan, yn alinio â blaenoriaethau trafnidiaeth strategol Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd. Felly, mae'r CTRh yn berthnasol o hyd fel sail strategol CTLl Caerdydd a rhaglen 5 mlynedd y CTLl, sy'n ceisio cyflawni'r cynlluniau amrywiol oedd yn rhan o raglen 5 mlynedd y CTRh.

1.4.5 **Strategaeth Rhwydwaith Bysus a Thrafnidiaeth Gymunedol Rhanbarthol SEWTA (2014):** yn nodi amcanion, allbynnau a blaenoriaethau i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar ddefnydd o fysus a thrafnidiaeth gymunedol ar hyn o bryd a gwella effeithlonrwydd y rhwydwaith. Mae'r strategaeth yn amlinellu saith amcan, sydd hefyd yn adlewyrchu amcanion cyffredinol CTRh SEWTA, gan gynnwys:

- Darparu a hyrwyddo cysylltiadau bysus a thrafnidiaeth gymunedol diogel, deniadol a hygyrch i ganolfannau a chyrchfannau rhanbarthol allweddol
- Gwneud y gorau o gyfleoedd i gynnal ac annog twf teithwyr
- Gwella ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau bysus a thrafnidiaeth gymunedol
- Sicrhau bod bysus a thrafnidiaeth gymunedol yn chwarae rôl lawn yng Nghynigion Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd.

Mae'r strategaeth yn nodi nifer o gamau gweithredu sy'n berthnasol i Gaerdydd a'i rôl yn rhanbarthol, er enghraifft, cefnogi mesurau blaenoriaethu bysus, gwella cyfleusterau cyfnewid, a darparu cyfleusterau parcio a theithio sy'n seiliedig ar fysus sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â'r prif rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Fel is-strategaeth i'r CTRh, mae'r strategaeth hon hefyd yn alinio â blaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd ac yn ffurfio rhan o sail strategol yr ymyriadau trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi'u nodi yn y CTLl hwn.

1.4.6 **Adroddiad Tasglu Trafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru (2013):** ystyried rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus y dyfodol a’i berthynas â thwf economaidd, creu swyddi a chynhwysiant cymdeithasol ar gyfer de-ddwyrain Cymru fel rhanbarth. Mae’r adroddiad yn amlinellu'r angen am gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng aneddiadau allweddol a chanolfannau cyflogaeth, gan gynnwys Ardal Fenter Canol Caerdydd, ac yn cynnig sefydlu llwybrau a gwasanaethau newydd i wella hygyrchedd i bobl a chyflogwyr. Mae’r adroddiad yn nodi rhaglen flaenoriaeth o gynlluniau sy’n cynnwys datblygu coridor bysus cludiant cyflym yn cysylltu ag Ardal Fenter Canol Caerdydd. Mae cynlluniau allweddol Caerdydd, a nodir yn yr adroddiad, wedi’u cynnwys yn y CTLl 5 mlynedd a’r rhaglen ddarparu tymor hwy.

## 1.5 Adolygu Polisïau a Chynlluniau Eraill

1.5.1 **Cynllun Datblygu Lleol (Cynllun ar Adnau 2013 Cyngor Dinas Caerdydd [CDC]):** Mae’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn darparu strategaeth a fframwaith polisi ar gyfer datblygiad a chadwraeth Caerdydd am 20 mlynedd rhwng 2006 a 2026. Fe'i defnyddir gan Gyngor Caerdydd i lywio a rheoli datblygiad, gan ddarparu sail polisi leol i benderfynu ar geisiadau cynllunio yn y blynyddoedd i ddod.

1.5.2 Mae strategaeth y CDLl yn cynnwys chwe elfen allweddol, gan gynnwys:

- **Tyfu i ddiwallu anghenion y dyfodol:** creu 40,000 o swyddi newydd a 41,100 o anheddau dros gyfnod y cynllun, i ymateb i rôl Caerdydd fel sbardun economaidd y ddinas-ranbarth a chyflawni amcanion Cynllun Gofodol Cymru, gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ac amcanion y CDLl.
- **Datrysiadau trafnidiaeth gynaliadwy:** ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â datblygiad newydd drwy ddull gweithredu sydd â'r nod o leihau teithiau ceir, annog cynifer o bobl â phosibl i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy a gwella cysylltiadau rhwng Caerdydd a’r rhanbarth ehangach. Mae’r Cynllun yn nodi strategaeth i gyflawni hyn drwy wneud y defnydd gorau o’r rhwydwaith presennol, rheoli’r galw a’i leihau lle y bo'n bosibl ac ehangu dewisiadau teithio. Y nod yw sicrhau rhaniad moddol o 50:50 rhwng y car a’r di-gar.
- **Datblygu seilwaith newydd:** mae'r Cynllun yn nodi dull gweithredu sy’n gofyn am ddarpariaeth amserol o seilwaith newydd, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol, trafnidiaeth a gwasanaethau eraill.

1.5.3 Mae’r CDLl yn nodi nifer o faterion trafnidiaeth allweddol y mae’r ddinas yn eu hwynebu, gan gynnwys:

- **Gwella mynediad i swyddi a gwasanaethau:** nid oes gan 30% o aelwydydd Caerdydd fynediad i gar. Nid yw pobl bob amser yn gallu teithio'n rhwydd i ble bynnag y maent am fynd, pa bryd bynnag y maent am wneud hynny, mewn dull o'u dewis nhw, ac am bris fforddiadwy. Gall hygyrchedd fod yn broblem benodol i pobl â symudedd is ac anghenion teithio arbennig, fel pobl ifanc, pobl hŷn, a phobl ag anableddau neu blant bach.
- **Ffyrdd diogelach:** er y lleihad mewn damweiniau, mae traffig ffyrdd yn parhau’n risg i ddiogelwch cerddwyr a beicwyr ac mae'n annog pobl i beidio â chwtogi ar eu defnydd o gar.

- **Ansawdd aer gwell:** mae traffig ffyrdd yn ffynhonnell fawr o lygredd sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd aer ac iechyd pobl, yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol at newid yn yr hinsawdd.
- **Problemau iechyd yn sgîl ffyrdd o fyw sy'n ddibynnol ar geir:** gall lleihau'r ddibyniaeth ar geir a galluogi pobl i gerdded a beicio teithiau byr helpu mwy o bobl i ymarfer corff yn rheolaidd ac osgoi'r problemau iechyd difrifol sy'n deillio o ddiffyg ymarfer corff.

1.5.4 Yn ogystal â'r materion trafnidiaeth uchod, mae gan y cynnydd net arfaethedig o 32% mewn traffig o ganlyniad i dwf y CDLl oblygiadau i rwydwaith Caerdydd a'r teithiau a wneir, megis lleihad mewn cyflymder teithiau cyfartalog a chynnydd cydredol mewn amseroedd teithio o tua 41% neu 7 munud (ar gyfartaledd).

1.5.5 Felly, mae'r CDLl yn nodi bod yn rhaid sicrhau bod **50% o'r holl deithiau a wneir ar y rhwydwaith trafnidiaeth** yn cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy (mae angen cyflawni'r gyfran hon i ddarparu ar gyfer y teithiau cerbydol ychwanegol ar y rhwydwaith priffyrdd yn sgîl y datblygiad newydd).

1.5.6 Bydd y cynlluniau yn y rhaglen CTLl yn ategu seilwaith trafnidiaeth a ddarparwyd ar y cyd â datblygiadau a ddygwyd ymlaen drwy'r CDLl. Bydd y CTLl yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r CDLl.

1.5.7 **Cynllun Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (CDC 2011):** Mae'r Cynllun yn diffinio rhwydwaith strategol o lwybrau beicio craidd (o'r enw Enfys) a rhaglen 5 mlynedd i'w cyflawni. Mae'r Cynllun wedi'i ategu gan Ganllaw Dylunio Beicio yn seiliedig ar arfer da sy'n nodi safonau ar gyfer dylunio a darparu'r seilwaith beicio cyfan gan gynnwys mesurau a ddarparwyd fel rhan o gynlluniau priffyrdd. Mae rhaglen 5 mlynedd y CTLl yn cynnwys cynlluniau a fydd yn cwblhau'r Rhwydwaith Enfys a nodwyd yng Nghynllun Rhwydwaith Beicio Strategol 2011. Caiff estyniadau pellach i rwydwaith Enfys eu nodi a'u dylunio ar ôl i'r Cyngor gynhyrchu ei Fapiau Rhwydwaith Integredig i fodloni gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Bydd cynlluniau i ddatblygu'r llwybrau hyn yn rhaglenni 5 mlynedd y dyfodol rhwng 2020 a 2030.

1.5.8 **Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy (CDC 2013):** Mae'r Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy (RhCC) yn darparu ar gyfer rhaglen o ymyriadau ar gyfer gwella cerddadwyedd ardaloedd lleol allweddol yng Nghaerdydd. Bydd cynlluniau blaenoriaeth o fewn rhaglen 5 mlynedd y CTLl yn canolbwyntio ar rwydweithiau cerdded sy'n cysylltu â hybiau gwasanaeth cymdogaethau'r Cyngor, ac maent wedi'u blaenoriaethu i gyd-daro â'r gwaith o ddatblygu'r rhain. Penderfynir ar flaenoriaethau'r dyfodol o ran ymyriadau cerdded drwy'r broses o ddatblygu Map Rhwydwaith Integredig Caerdydd drwy Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

1.5.9 **Astudiaeth Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd (2013):** Mae'r Astudiaeth Metro yn nodi cynllun rhanbarthol strategol ar gyfer datblygu'r Metro, sef "rhwydwaith trafnidiaeth integredig a fydd yn cysylltu dros 70% o boblogaeth Dinas-ranbarth Caerdydd, wedi'i ddatblygu mewn ffordd sy'n galluogi a/neu yn gwella datblygiadau mewn safleoedd strategol, yn sicrhau'r manteision

economaidd mwyaf posibl ac yn hwyluso adfywio.” Nodwyd Coridor Gogledd-orllewin Caerdydd fel y flaenoriaeth uchaf ar gyfer y project, yn cwmpasu llwybrau a gorsafoedd newydd i hwyluso ehangiad tymor canolig Caerdydd, o Fae Caerdydd i Rondda Cynon Taf drwy Creigiau, a chyswllt i Ffynnon Taf i gefnogi ailddatblygiad a helpu i leihau tagfeydd ar yr A470.

1.5.10 **Prifddinas-ranbarth Caerdydd (2014):** Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddynodi De-ddwyrain Cymru fel Prifddinas-ranbarth Caerdydd, dinas-ranbarth â Chaerdydd yn ganolog iddi. Mae Bwrdd Dinas-ranbarth wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys aelodau o awdurdodau lleol a'r sectorau preifat ac addysg. Mae CTLl Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â’r Bwrdd ar eu CTLlau. Mae CTLl Caerdydd wedi’i anfon i Fwrdd Prifddinas-ranbarth Caerdydd am sylwadau.

1.5.11 **Bil Cynllunio Drafft (Cymru) a'r Ymgynghoriad Cynllunio Cadarnhaol:** Mae newidiadau i’r broses gynllunio a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru drwy’r Bil hwn yn cynnwys cyflwyno haen cynllunio strategol. Byddai Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn cynnwys elfennau strategol y CDLlau, fel tai, cyflogaeth, trafnidiaeth, darpariaeth sipsiwn a theithwyr, mwynau a gwastraff, gyda'r gofyniad am CDS ar gyfer ardal Dinas-ranbarth Caerdydd. Cynigir y dylai CDLlau yn y maes hwn gael eu halinio â’r CDS perthnasol ac y byddai ffocws culach iddynt nag o dan y system bresennol.

1.5.12 **Dinas Un Blaned (CDC 2013):** Mae Dinas Un Blaned yn nodi sut y bydd Caerdydd yn ymateb yn gadarnhaol i gynnal economi gref, diogelu a sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r amgylchedd a lleihau defnydd o adnoddau yn wyneb heriau fel newid yn yr hinsawdd a phrisiau ac ansicrwydd ynni cynyddol. Mae camau gweithredu wedi’u hamlinellu sy’n annog ac yn galluogi cynaliadwyedd a dewisiadau teithio llesol ac i wneud y newid moddol o drafnidiaeth ceir.

1.5.13 **Cynllun Corfforaethol Caerdydd 2014-17 (CDC 2014):** Mae Cynllun Corfforaethol CDC yn nodi y caiff dinas o’r radd flaenaf ei chreu o fewn amserlen y Cynllun Datblygu Lleol (erbyn 2026) drwy ddarparu seilwaith a thrafnidiaeth briodol. Mae’n nodi projectau allweddol:

- Creu coridor trafnidiaeth gyhoeddus strategol newydd gan gynnwys cysylltiad Tram-Trên rhwng Bae Caerdydd drwy Ganol y Ddinas i Ogledd-orllewin Caerdydd ac i Rondda Cynon Taf
- Cysylltiadau Bysus Cludiant Cyflym newydd ac ehangu rhwydweithiau bysus i gefnogi datblygiadau safleoedd Maes Glas mawr yng Ngogledd-ddwyrain Caerdydd (yn y CDLl ar Adnau)
- Ymchwilio i’r potensial am lwybr Cludiant Cyflym a chyfnewidfeydd newydd i’r dwyrain o Gaerdydd
- Ymchwilio i’r potensial am gysylltiadau Cludiant Cyflym rhwng Caerdydd Canolog ac aneddiadau allweddol ym Mro Morgannwg, gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd
- Parhau i ddatblygu a chyflawni projectau teithio llesol (beicio a cherdded) ledled y ddinas.

1.5.14 **Cynllun Gweithredol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Caerdydd 2011-14:**

Mae’r cynllun 3 blynedd hwn yn disgrifio gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor a'r bwrdd iechyd lleol ac yn adeiladu ar gynnydd sydd eisoes wedi'i wneud i ddylanwadu ar welliannau iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Y nod yw sicrhau y gall trigolion Caerdydd fwynhau bywyd hir, iach a llesol, gyda mynediad prydlon i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol priodol pan fo angen. Mae’n nodi y bydd Caerdydd yn canolbwyntio ar “Gynllunio trefol iachus ac y caiff trafnidiaeth iachus ei hyrwyddo er mwyn creu amgylchedd sy'n cefnogi ffyrdd iach o fyw."

## 2.0 Problemau, Cyfleoedd ac Ymyriadau

2.1.1 Yng Nghaerdydd y mae’r rhan fwyaf o broblemau trafnidiaeth a nodwyd yng Nghanllaw CTLl Llywodraeth Cymru (Mehefin 2014). Mae’r tabl isod yn nodi’r problemau a nodwyd yn y Canllaw sydd fwyaf perthnasol i’r ddinas (Cyf 1-14). Mae hefyd yn nodi nifer o broblemau ychwanegol sydd o bwys a pherthnasedd penodol i’r ddinas a’i datblygiad yn y dyfodol (Cyf 15-24).

2.1.2 Mae Strategaeth Drafnidiaeth Graidd Caerdydd yn ceisio mynd i’r afael â’r problemau hyn drwy nifer o ymyriadau lefel uchel strategol sy’n blaenoriaethu’r gwelliannau a amlinellir isod.

2.1.3 Datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus strategol, gan gynnwys:

- datblygu llwybrau cludiant cyflym, e.e. Canol y Ddinas - Bae Caerdydd a Choridor y Gogledd-orllewin (Canol y Ddinas yn ymestyn drwy Ogledd-orllewin Caerdydd â chysylltiadau posibl i ardal Rhondda Cynon Taf)
- datblygiad coridor bysus strategol a mesurau blaenoriaeth bysus
- ymestyn rhwydwaith bysus y ddinas – llwybrau newydd, gwasanaethau ychwanegol a chyfleusterau cyfnewid
- datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog ochr yn ochr ag ailddatblygu’r Sgwâr Canolog
- gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa yn Ardal Fenter Caerdydd.

2.1.4 Datblygu’r rhwydwaith teithio llesol, gan gynnwys:

- datblygu ac ehangu’r rhwydwaith beicio strategol (Enfys)
- mesurau i wneud cymdogaethau’n gerddadwy
- mesurau rheoli cyflymder, gan gynnwys cyfyngiadau 20mya.

2.1.5 Rheoli’n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy, gan gynnwys:

- blaenoriaeth i fysus a gatio cyffyrdd allweddol i leihau amseroedd teithio bysus a gwella dibynadwyedd o ran amser teithio
- gwelliannau i gyffyrdd a chroesfannau i hwyluso cerdded ac annog teithio llesol.

2.1.6 Dangosir rôl yr ymyriadau Lefel Uchel hyn o ran mynd i'r afael â phroblemau teithio allweddol yn y tabl isod. Rhestrir yr amrywiaeth o gynlluniau ar gyfer darparu’r ymyriadau hyn hefyd, a cheir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys amserlenni a chostau darparu, yn Adran 3, Cyfnod Cynllun 2015-2020.

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw'r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni'n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mapiau rhwydwaith bysus a gwybodaeth am amserlenni | Gallai trafnidiaeth gyhoeddus i safleoedd cyflogaeth presennol ac arfaethedig y tu allan i'r canol fod yn annigonol | Mynediad gwell i swyddi | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas drwy ddatblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |
| 2 | Gwybodaeth am amserlenni bysus | Diffyg darpariaeth gyda'r nos ac ar y penwythnos - yn arwain at anawsterau wrth geisio cyflogaeth a dibyniaeth ar | Mynediad gwell i swyddi<br><br>Newid moddol i fysus | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Gwell mynediad i | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw'r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni'n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | geir preifat | | drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |
| 3 | Gwybodaeth am y rhwydwaith bysus a data amserlen | I gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth presennol a datblygol ar fws, rhaid newid bws a defnyddio gweithredwyr amrywiol, sy'n gwneud y teithiau'n gymhleth ac anneniadol | Mynediad gwell i swyddi<br><br>Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n hawdd eu defnyddio<br><br>Tocynnau integredig | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw'r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni'n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Mynegai Amddifadedd Lluosog<br><br>Data ar berchnogaeth ceir<br><br>Mae mynediad i wasanaethau iechyd ar drafnidiaeth gyhoeddus yn aml yn wael | Gallai pobl heb fynediad i gar gael eu cau allan o rai cyfleoedd swyddi a hamdden | Gwasanaethau bws sy'n galluogi cymunedau i gael gafael ar gyflogaeth / gwasanaethau<br><br>Sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddio bysus a/neu drenau i gael mynediad i gyflogaeth a safleoedd eraill<br><br>Cyfleoedd teithio di-gar gwell rhwng cymunedau a safleoedd gofal iechyd | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw'r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni'n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Data'r Cyfrifiad – dwyster poblogaeth<br><br>Data cyfran modd | Mae goblygiadau i aneddiadau gwasgaredig o ran hygyrchedd a mynediad i wasanaethau allweddol, ac felly mae mwy o ddibyniaeth ar geir preifat | Mynediad gwell i swyddi a gwasanaethau drwy deithio cynaliadwy a llesol. | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |
| 6 | Ad-drefnu'r GIG<br><br>Cynlluniau rhwydwaith trenau a bysus a gwybodaet h am | Mae newidiadau i leoliadau gwasanaetha u allweddol, fel iechyd, yn debygol o gynyddu'r defnydd o geir | Mynediad gwell i swyddi a gwasanaethau drwy deithio cynaliadwy a llesol. | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw'r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni'n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| | amserlenni | a gallent gau allan rai cymunedau | | • Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |
| 7 | Cynlluniau rhwydwaith trenau a bysus a gwybodaeth am amserlenni a phrisiau | Diffyg trafnidiaeth fforddiadwy ar gyfer rhai cymunedau. Mae angen mynd i'r afael â'r problemau y mae llawer o bobl yn eu hwynebu wrth geisio gwaith, addysg a gofal iechyd. | Mynediad fforddiadwy i swyddi, gwasanaethau ac addysg | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw'r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni'n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Data teithio i'r gwaith | Mae cyfran uchel o deithiau cymudo yn llai na 5km a gallent gael eu gwneud drwy ddulliau teithio llesol | Mynediad gwell drwy ddulliau teithio llesol | • Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |
| 10 | Teithiau i'r gwaith yn canolbwynti o'n bennaf ar y prif drefi | Cyfleoedd i gynyddu cyfran modd trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol | Mwy o gyfleoedd i geisio cyflogaeth mewn canol trefi drwy drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw'r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni'n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |
| 11 | Ardaloedd twf cyflogaeth nad ydynt wedi'u halinio ag ardaloedd twf tai | Mwy o angen i deithio pellteroedd hwy i fanteisio ar gyfleoedd swyddi | Cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da i ardaloedd twf cyflogaeth | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw’r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni’n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Cyfran uchel o deithiau’n cael eu gwneud yn y car<br><br>Tagfeydd ar y rhwydwaith priffyrdd strategol<br><br>Lefelau teithio uchel ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr, nawr ac yn y dyfodol, ar gyfer cymudo, twristiaeth ac ati | Mwy o dagfeydd ar y rhwydwaith ffyrdd strategol, amseroedd teithio hwy a llai o ddibynadwyedd o ran amser teithio ar gyfer pobl a nwyddau | Llai o dagfeydd, mwy o gadernid ar y rhwydwaith ffyrdd strategol<br><br>Llai o dagfeydd, dibynadwyedd gwell o ran amser teithio, mwy o gadernid<br><br>Gwella’r potensial ar gyfer dulliau teithio di-gar ar gyfer cymudo ac at ddibenion eraill | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>• Datblygu’r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli’n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i orsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw’r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni’n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Adborth gan grwpiau defnyddwyr | Mae diffyg tocynnau hygyrch, di-dor yn amharu ar y gallu i newid dull teithio ac yn cyfyngu ar orwelion, yn arbennig ar gyfer cymunedau mwy difreintiedig. | Teithiau di-dor a thocynnau integredig | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu hyb trafnidiaeth aml-foddol yng Nghaerdydd Canolog<br>• Rheoli’n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy<br>• Gwell mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a chyfnewidfa - Ardal Fenter Caerdydd<br>Datblygu’r Rhwydwaith Teithio Llesol | • Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio |
| 15 | Stats Cymru 2012 | Yr angen am Ffyrdd Diogelach | Lleihad mewn damweiniau yn ôl y pellter a deithir | • Cyfleusterau gwell i deithwyr<br>• Mynediad i Drafnidiaeth Gyhoeddus a Chyfnewidfa<br>• Rhwydwaith Beicio Strategol<br>• Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw'r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni'n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |
| 16 | Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd – amcangyfrifon allyriadau $CO_2$ lleol a rhanbarthol 2005-2009 | Yr angen am Ansawdd Aer Gwell | Lleihad mewn allyriadau / gronynnau niweidiol a gwelliant cysylltiedig mewn ansawdd aer. | • Datblygu llwybrau cludiant cyflym<br>• Datblygu coridor bws strategol<br>• Ehangu rhwydwaith bysus y ddinas<br>• Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Parcio a Theithio<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd Strategol<br>• Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Priffyrdd Strategol<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |

| Cyf | Tystiolaeth | Beth yw'r broblem? | Beth ydyn ni am ei gyflawni? (Canlyniad) | Sut ydyn ni'n bwriadu gwneud hyn? (Ymyriad Lefel Uchel) | Camau Gofynnol (Cynlluniau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Arolwg Iechyd Cymru: Canlyniadau Awdurdod Lleol a Byrddau Iechyd 2009 a 2010 | Mynd i'r afael â phroblemau iechyd yn sgîl ffyrdd o fyw sy'n ddibynnol ar geir | Cynyddu lefelau o ymarfer corff | • Datblygu'r Rhwydwaith Teithio Llesol<br>• Rheoli'n gadarnhaol y rhwydwaith priffyrdd i gefnogi teithio cynaliadwy | • Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy<br>• Rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)<br>• Rhaglen bysus – Rhwydwaith Bysus Strategol<br>• Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd<br>• Rhaglen cyfnewidfeydd – gwelliannau i fynediad gorsaf drenau<br>• Rhaglen Diogelwch Ffyrdd |
| Refeniw Grant Diogelwch Ffyrdd | CDC | Cyflawni'r rhaglen Diogelwch Ffyrdd yn unol â'r Grant Diogelwch Ffyrdd | FfDFfC | Blynyddol | Lleol | 865 | GDFf | 0 | 3 | 1 | 3 | 7 |
| Gwasanaeth Swyddog Croesi Ysgolion | CDC | Gwella diogelwch cerddwyr wrth groesi'r ffordd ar dripiau ysgol | RhDFf | Blynyddol | Lleol | 1955 | GDFf | 0 | 3 | 1 | 3 | 7 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Diogelwch Ffyrdd Cyffredinol (115 o gynlluniau wedi'u nodi) | CDC | Cynlluniau'n cynnwys Rheoli Diogelwch Trefol, Cyfleusterau Croesi i Gerddwyr, Gwelliannau i Gyffyrdd ac Arafu Traffig | RhDFf | Blynyddol (Blaenoriaethu yn unol â'r adnodd blaenoriaethu amcanion) | Lleol | 7,553 | CGG / GDFf | 1 | 3 | 1 | 1 | 6 |
| Cynlluniau Defnyddwyr Ffordd Agored i Niwed (75 o gynlluniau wedi'u nodi) | CDC | Cynlluniau'n cynnwys Cyfleusterau Croesi i Gerddwyr, Gwelliannau i Gyffyrdd ac Arafu Traffig | RhDFf | Blynyddol (Blaenoriaethu yn unol â'r adnodd blaenoriaethu amcanion) | Lleol | 4,766 | CGG / GDFf | 1 | 3 | 1 | 1 | 6 |
| Cynlluniau Diogelwch Troedffyrdd (31 o gynlluniau wedi'u nodi) | CDC | Gwelliannau i droedffyrdd presennol | RhDFf | Blynyddol (Blaenoriaethu yn unol â'r adnodd blaenoriaethu amcanion) | Lleol | 1,453 | CGG / GDFf | 1 | 3 | 1 | 1 | 6 |
| Parthau Diogelwch Ysgolion (59 o ysgolion wedi'u nodi) | CDC | Parthau Diogelwch Ysgolion i gynnwys croesfan sebra ac arafu traffig i leihau cyflymder cerbydau i 20mya, gwelliannau i gyffyrdd, cyfyngiadau parcio a gwelliannau i seilwaith cerdded | PDY | Blynyddol (Blaenoriaethu yn unol â'r adnodd blaenoriaethu amcanion) | Lleol | 6,015 | CGG / GDFf | 1 | 3 | 1 | 1 | 6 |

### 3.5 Trosolwg costau'r rhaglen 2015/16 – 2019/20

| **Rhaglen** | **Cost (£000oedd)** |
|---|---|
| Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy | 2,300 |
| Enfys | 5,000 |
| Bws | 30,000 |
| Metro | 320,000 |
| Mynediad i orsafoedd lleol | 240 |
| Parcio a Theithio | 5,000 |
| Gwelliannau i Gyffyrdd Priffyrdd | 22,000 |
| Gwelliannau i Briffyrdd | (I'w gadarnhau gan Lywodraeth Cymru) |
| Diogelwch Ffyrdd | 20,000 |
| Diogelwch Ffyrdd – Refeniw | 3,400 |
| | |
| Cyfanswm | 408,000 + |

## 4.0 Dyheadau Tymor Canolig a Thymor Hwy 2020-2030

### 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae’r adran hon yn amlinellu dyheadau tymor canolig a thymor hwy Caerdydd o 2020 i 2030. Mae'r dyheadau hyn yn cynrychioli cynnydd naturiol y gwelliannau i’r rhwydwaith trafnidiaeth a gaiff eu cyflawni drwy'r rhaglen 5 mlynedd hyd at 2020 (nodir yn Adran 3).

4.1.2 Caiff seilwaith trafnidiaeth strategol, y tu hwnt i 2020, ei adeiladu yng nghyd-destun:

- Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Caerdydd, gan gynnwys cynlluniau seilwaith allweddol yng Nghynllun Seilwaith y CDLl (Papur Technegol Cefndirol Rhif 6: Cynllun Seilwaith). Mae’r Cynllun Seilwaith yn nodi’r angen i Safleoedd Strategol a nodwyd yn y CDLl gael eu hintegreiddio'n briodol â seilwaith trafnidiaeth, ac yn nodi’r elfennau allweddol o’r seilwaith trafnidiaeth i’w cyflwyno yn ystod cyfnod y CDLl.
- Gofynion o ran Teithio Llesol (cerdded a beicio), Bysus / Cludiant Cyflym, Parcio a Theithio, y Rhwydwaith Rheilffyrdd a’r Rhwydwaith Ffyrdd a amlinellir yn y Cynllun Seilwaith. Mae’r amserlenni ar gyfer y gwaith hwn wedi’u cysylltu’n agos â’r gwaith o ddarparu’r CDLl. Er enghraifft, caiff camau’r gwelliannau i’r coridor cludiant cyflym strategol a hybiau trafnidiaeth cysylltiedig eu llywio gan waith uwchgynllunio ar gyfer Safleoedd Strategol y CDLl ar Adnau ac argaeledd cyllid. Caiff rhwydwaith Bysus Cyflym / Craidd ei ddarparu drwy raglen dreigl barhaus dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd camau cynnar y gwaith yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau sy'n gwasanaethu Safleoedd Strategol y CDLl ar Adnau (a gaiff eu llywio gan waith uwchgynllunio manwl) a gwasanaethau bws rhanbarthol gwell.

## 4.2 Rhaglenni 2020-2030

| Enw Cynllun | Awdurdod Lleol | Disgrifiad | Ffynhonnell | Pwys Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol | Cost (£000oedd) | Ffynhonnell / Ffynonellau Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Cymdogaethau Cerddadwy 2020-2030 gan gynnwys Cam 2 Pentwyn a Cham 3 Trelái a Chaerau, Sblot, Grangetown, Ystum Taf, Llanisien a Phentwyn | CDC | Gwelliannau i gyfleusterau i gerddwyr a'r amgylchedd yng nghyffiniau Hybiau a Chanolfannau Cymdogaethau. Datblygu'r Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy ymhellach. | Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy / Cynllun Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol | Lleol | 900 y flwyddyn x 10 mlynedd 2020-2030 | CGG / CDL / Grant Trafnidiaeth / LlDC / RhAC |
| Rhwydwaith Beicio Strategol 'Enfys 2' Estyn Rhwydwaith 2020-2030 | CDC | Gwaith cyn-gyflawni blynyddol a rhaglen weithredu'r cynllun | Enfys 2 / Cynllun Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol | Rhanbarthol | 1000 y flwyddyn x 10 mlynedd 2020-2030 | CGG / CDL / LlDC / Diogelwch Ffyrdd LlC / A106 / Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) |
| Rhwydwaith Beicio Strategol - Mân Welliannau i'r Rhwydwaith | CDC | Mân welliannau parhaus i'r llwybrau presennol | Cynllun Enfys | Rhanbarthol | 50 y flwyddyn x 10 mlynedd | CGG / CDL |

| Enw Cynllun | Awdurdod Lleol | Disgrifiad | Ffynhonnell | Pwys Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol | Cost (£000oedd) | Ffynhonnell / Ffynonellau Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhwydwaith Beicio Strategol - Hyb Canol y Ddinas: Heol-y-Frenhines | CDC | Asesu risg a chynhyrchu opsiynau Heol-y-Frenhines, a gwaith stryd posibl i hwyluso beicio – Cam 2 | Cynllun Enfys | Rhanbarthol | 135 | CGG / CDL / LlDC / DFfLlC / A106 / ASC |
| Rhaglen bysus - Rhwydwaith Bysus Strategol | CDC | Gwaith cyn-gyflawni blynyddol a rhaglen weithredu'r cynllun | CDLl / Metro | Rhanbarthol | 15,000 | CGG / CDL / CD / A106 / ASC |
| Rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd | CDC | Darparu yn unol â rhaglen Metro Strategol LlC | Metro | Rhanbarthol | 250,000 | LlC |
| Rhaglen priffyrdd – Gwelliannau Cyffyrdd a Phriffyrdd Strategol | CDC | Darparu yn unol â chynllun seilwaith y CDLl | CDLl | Rhanbarthol | 18,000 | CGG / CDL / CD |

| Enw Cynllun | Awdurdod Lleol | Disgrifiad | Ffynhonnell | Pwys Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol | Cost (£000oedd) | Ffynhonnell / Ffynonellau Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Diogelwch Ffyrdd 2020-2030 | CDC | Gwaith cyn-gyflawni blynyddol a rhaglen weithredu’r cynllun | Rhaglen Diogelwch Ffyrdd | Lleol | 4,000 y flwyddyn x 10 mlynedd | CGG / LlDC / Diogelwch Ffyrdd LlC / A106 / ASC |
| Addysg Diogelwch Ffyrdd | CDC | Darparu addysg diogelwch ffyrdd a chefnogi gwariant y Refeniw Grant Diogelwch Ffyrdd | Rhaglen Diogelwch Ffyrdd | Lleol | 124 x 10 mlynedd | GDFf |
| Refeniw Grant Diogelwch Ffyrdd | CDC | Cyflawni’r rhaglen Diogelwch Ffyrdd yn unol â’r Grant Diogelwch Ffyrdd | Fframwaith Diogelwch Ffyrdd Cymru | Lleol | 173 x 10 mlynedd | GDFf |
| Gwasanaeth Swyddog Croesi Ysgolion | CDC | Gwella diogelwch cerddwyr wrth groesi’r ffordd ar dripiau ysgol | Rhaglen Diogelwch Ffyrdd | Lleol | 391 x 10 mlynedd | GDFf |

| Enw Cynllun | Awdurdod Lleol | Disgrifiad | Ffynhonnell | Pwys Lleol, Rhanbarthol neu Genedlaethol | Cost (£000oedd) | Ffynhonnell / Ffynonellau Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae Cam 2 | CDC | Gwella cysylltiadau ffordd rhwng Ocean Way a'r A48 Eastern Avenue | Strategaeth Drafnidiaeth Cymru / CDLl | Cenedlaethol / Rhanbarthol | i'w gadarnhau | LlC / CD |

### 4.3 Trosolwg costau'r rhaglen 2020/21 – 2029/30

| **Rhaglen** | **Cost (£000oedd)** |
|---|---:|
| Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy | 9,000 |
| Enfys | 11,000 |
| Bws | 15,000 |
| Metro | 250,000 |
| Gwelliannau i Briffyrdd a Chyffyrdd | 18,000 |
| Diogelwch Ffyrdd | 40,000 |
| Diogelwch Ffyrdd – Refeniw | 6,900 |
| Ffordd Gyswllt Ddwyreiniol y Bae | (I'w gadarnhau) |
| | |
| Cyfanswm | 350,000 + |

## 5.0 Gwiriadau Statudol

### 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae’r adran hon yn rhoi manylion am y Gwiriad Sgrinio Statudol sydd wedi'i gynnal ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl). Mae’r Gwiriad Sgrinio Statudol yn sicrhau bod holl strategaethau, polisïau a gweithgareddau Cyngor Dinas Caerdydd yn cydymffurfio â rhwymedigaethau a chyfrifoldebau statudol perthnasol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb (2010), y Bil Datblygu Cynaliadwy, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol.

5.1.2 Diddymwyd SEWTA, corff trafnidiaeth rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, a luniodd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh), ar ddiwedd mis Mawrth 2014. Mae rhaglen 5 mlynedd y CTRh yn rhedeg hyd at ddiwedd Mawrth 2015.

5.1.3 Cynhaliwyd llawer o ymchwil i gefnogi’r CTRh ac mae data monitro hefyd ar gael sy’n rhoi trosolwg o dueddiadau presennol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol. Ategir hyn ymhellach gan yr ymchwil a’r modelu a wnaed i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Caerdydd. Mae data arolwg blynyddol Holi Caerdydd, yn ogystal â gwaith monitro yn seiliedig ar gynlluniau, hefyd yn cynnig gwybodaeth werthfawr am, er enghraifft, flaenoriaethau’r cyhoedd o ran gwariant ar drafnidiaeth a boddhad cyhoeddus ar ddulliau teithio gwahanol. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar gyfer pobl cynllun sy’n cael ei ddatblygu a’i weithredu.

### 5.2 Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

5.2.1 Mae Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) wedi’i gynnal ar y CTLl.

5.2.2 Cynhaliwyd AEG ar y CTRh. Cyfeiriwyd at hyn wrth ddatblygu AEG ar gyfer y CTLl.

5.2.3 Cynhaliwyd AEG ar y CDLl mewn perthynas â’r mesurau trafnidiaeth gyhoeddus y mae eu hangen i gyflawni'r cynllun. Cyfeiriwyd at hyn wrth ddatblygu AEG ar gyfer y CTLl.

5.2.4 Mae'r AEG yn nodi, er bod y CTLl wedi’i ddylunio i hyrwyddo rhaglen gytbwys o fuddsoddi a chymorth ar gyfer pob dull teithio, y gallai elfennau o fewn i’r cynlluniau y mae’n eu nodi gael effaith wahaniaethol, gan arwain at effeithiau cadarnhaol a negyddol. Mae’n dod i’r casgliad ei bod yn hanfodol paratoi AEG ar wahân ar gyfer pob cynllun sy’n cael ei ddatblygu, a bod y goblygiadau'n cael eu hystyried cyn i benderfyniad gael ei wneud ar weithredu. Mae hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu manwl sy’n gysylltiedig â’r nodweddion a ddiogelir i’w cynnal yn ystod y gwaith o ddatblygu a gweithredu’r cynllun; er enghraifft, camau gweithredu i hyrwyddo gwelliannau o ran hygyrchedd a diogelwch personol.

### 5.3 Asesiad Amgylcheddol Strategol

5.3.1 Mae Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AAS) yn ofynnol o dan ddeddfwriaeth

Ewropeaidd i sicrhau y caiff ystyriaethau amgylcheddol eu hintegreiddio i mewn i'r gwaith o baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni. Mae'r gofynion hyn wedi'u hystyried yng nghyd-destun y CTLl fel a ganlyn.

5.3.2 Mae'r CTLl yn cynnwys rhaglen 5 mlynedd o fuddsoddiad trafnidiaeth yn cynnwys cyfuniad o drafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd. Mae rhaglen 5 mlynedd y CTLl yn cynrychioli parhad o'r rhaglen cynlluniau 5 mlynedd a gyflawnwyd gan y Cyngor fel rhan o CTRh SEWTA. Mae'r cynlluniau yn y rhaglen yn gyson ag amcanion, polisïau a chanlyniadau'r CTRh sydd eisoes wedi bod yn destun AAS drwy AAS y CTRh.

5.3.3 Yn yr un modd, bydd y cynlluniau yn rhaglen 5 mlynedd y CTLl yn ategu darpariaeth y strategaeth ar gyfer twf Caerdydd yn y dyfodol, a nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Caerdydd (2006-2026). Mae amcanion, opsiynau twf a pholisïau strategol y CDLl, gan gynnwys y gyfres o bolisïau trafnidiaeth strategol a manwl, oll wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd ac AAS.

5.3.4 O ystyried cysondeb y CTLl â'r CTRh a'r CDLl, a'r ffaith bod y cynlluniau hyn wedi bod yn destun AAS, nid ystyrir bod angen AAS newydd ar gyfer y CTLl.

### 5.4 Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

5.4.1 Nid yw Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (AEI) yn wiriadau statudol ond fe'u hargymhellir gan Lywodraeth Cymru mewn sawl dogfen ganllaw, gan gynnwys yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG). Cynhaliwyd AEI llawn ar strategaeth, amcanion, polisïau a chanlyniadau dymunol y CDLl. Gan fod rhaglen y CTLl yn gyson â'r CDLl ac y bydd yn cefnogi ei ddarpariaeth, nid ystyrir bod angen cynnal proses ar wahân ar gyfer y CTLl.

### 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

5.5.1 Mae deddfwriaeth Ewropeaidd yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnal Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar gynlluniau a phrojectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Mae amcanion, opsiynau twf a pholisïau strategol y CDLl, gan gynnwys y gyfres o bolisïau trafnidiaeth strategol a manwl, wedi bod yn destun ARhC. Ar ôl adolygu gofynion yr ARhC, ni chynhaliwyd asesiad ar wahân ar gyfer y CTLl gan fod y cynlluniau yn rhaglen 5 mlynedd y CTLl yn cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith o ddarparu strategaeth ar gyfer twf Caerdydd yn y dyfodol, fel y nodir yn y CDLl. Felly, nid ystyrir bod angen ARhC ar gyfer y CTLl.

### 5.6 Datblygu Cynaliadwy

5.6.1 Mae asesiad wedi'i gynnal yn erbyn 7 Amcan Cyngor Dinas Caerdydd, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion (er enghraifft, 'Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach', 'Mae gan bobl Caerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy' ac 'Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus').

5.6.2 Daeth yr asesiad i'r casgliad fod hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy yn

gwneud cyfraniad sylweddol at bob elfen o gynaliadwyedd yng Nghaerdydd – economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Er enghraifft:

- cyfrannu at leihau allyriadau carbon a lleihau lefelau nwyon tŷ gwydr niweidiol eraill
- hybu iechyd a lles drwy gynyddu lefelau ymarfer corff
- hyrwyddo amgylcheddau diogelach drwy gynyddu lefelau cerdded a beicio, creu mwy o oruchwyliaeth naturiol ac annog rhyngweithio cymunedol
- lleihau anweithgarwch economaidd drwy gynnig mynediad i ddulliau teithio amrywiol
- gwella cystadleurwydd a chefnogi twf economaidd drwy hwyluso symudiadau nwyddau a phobl drwy amseroedd teithio byrrach a gwell dibynadwyedd o ran amser teithio.

## 6.0 Ymgynghoriad

### 6.1 Trosolwg

6.1.1 Mae'r Adran hon yn nodi'r ymgynghoriad a gynhaliwyd i lywio Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) Cyngor Dinas Caerdydd (CDC).

### 6.2 Data Presennol

6.2.1 Mae ffynonellau data presennol, e.e. Arolwg blynyddol Holi Caerdydd ac Arolwg Teithio Rhanbarthol SEWTA (Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru) 2014, wedi'u defnyddio i roi trosolwg o farn gyhoeddus ar le y dylai cyllid trafnidiaeth gael ei gyfeirio, a lefelau o foddhad ar gyfleusterau presennol (gweler 6.7 a 6.8).

### 6.3 Awdurdodau Cyfagos

6.3.1 Mae ymgynghoriad helaeth wedi'i gynnal ag awdurdodau cyfagos ar gynlluniau traws-ffiniol a chynlluniau o bwys rhanbarthol. Mae'r drafodaeth hon, a gynhaliwyd yn flaenorol drwy SEWTA mewn perthynas â rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh), yn un barhaus, ac yn allweddol ar gyfer cyflawni cynlluniau'n llwyddiannus. Mae swyddogion ac Aelodau Cabinet CDC wedi cyfarfod â'u cyfoedion yng Nghynghorau Bro Morgannwg, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â chynlluniau trafnidiaeth strategol traws-ffiniol a chynlluniau o bwys rhanbarthol.

6.3.2 Roedd y gwaith o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Caerdydd hefyd yn cynnwys ymgynghori ag awdurdodau cyfagos i sicrhau bod materion traws-ffiniol Strategaeth y Cynllun ar Adnau (gan gynnwys elfennau trafnidiaeth y Cynllun Seilwaith) yn gyson â'r cynlluniau datblygu a baratowyd gan awdurdodau cyfagos. Yn benodol, ystyrir bod y Strategaeth gyffredinol a lefel y twf arfaethedig yn cydbwyso'n briodol o ystyried y sail dystiolaeth a chyfrifoldebau rhanbarthol ehangach Caerdydd o ran mabwysiadu dull gweithredu sy'n caniatáu i awdurdodau eraill gyflawni eu hamcanion, a'r rheini a nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru. Er mwyn helpu'r CDLl i fodloni profion cadernid yn ymwneud â materion traws-ffiniol a sicrhau cydnawsedd â CDLlau a baratowyd gan awdurdodau cyfagos, sefydlwyd Gweithgor ym mis Tachwedd 2011 yn cynnwys 10 Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) de-ddwyrain Cymru a sefydliadau cyfranogol eraill yng Ngrŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG). Gwahoddwyd Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru (SEWEF) ac Awdurdod Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA) i gymryd rhan hefyd. Diben y gweithgor oedd trafod goblygiadau traws-ffiniol y materion a oedd yn dod i'r amlwg wrth baratoi'r CDLl.

### 6.4 Bwrdd Dinas-ranbarth

6.4.1 Yn unol â chanllaw CTLl LlC, anfonwyd y CTLl i'r Bwrdd Dinas-ranbarth drwy Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses ymgynghori. Caiff adborth y Bwrdd Dinas-ranbarth ei ymgorffori fel y bo'n briodol pan fydd yn dod i law.

### 6.5 Ymgynghoriad y Cynllun Trafnidiaeth Lleol

6.5.1 Ymgynghorwyd ar y CTLl gydag aelodau etholedig drwy gyfarfod Cabinet, cyfarfod Cyngor llawn a chyfarfod Pwyllgor Craffu.

6.5.2 Mae gwasanaethau sector cyhoeddus allweddol eraill hefyd wedi gweld y CTLl fel rhan o'r broses ymgynghori, gan gynnwys Cynllunio, Addysg, Iechyd, Datblygu Economaidd a Thai.

### 6.6 Ymgynghori ar y cynllun

6.6.1 Cynhelir ymgynghoriad â rhanddeiliaid (e.e. preswylwyr, Aelodau ac adrannau'r Cyngor) ar gynlluniau unigol ar sawl cam yn ystod y prosesau cychwyn a dylunio.

### 6.7 Arolwg Holi Caerdydd

6.7.1 Mae 'Holi Caerdydd' yn arolwg blynyddol sy'n rhoi'r cyfle i'r cyhoedd ddweud eu dweud ar amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan CDC. Cymerodd dros 4,400 a 6,000 o aelodau o'r cyhoedd ran yn arolygon 2012 a 2013 yn y drefn honno, a oedd yn ymwneud â phynciau fel Trafnidiaeth, Gwastraff a Blaenoriaethau Cyllidebol.

6.7.2 Nodir ymatebion Arolygon Holi Caerdydd 2012 a 2013 i'r cwestiwn "Beth ydych chi'n ei feddwl yw'r prif broblemau gyda theithio a thrafnidiaeth yng Nghaerdydd?" yn y tabl a siart 6.1 isod. Tagfeydd a chost parcio oedd y problemau a godwyd amlaf. Cyflwr y rhwydwaith ffyrdd oedd yn y pedwerydd safle yn 2012 a'r trydydd safle yn 2013. Symudodd parcio anghyfreithlon/anghyfrifol o wythfed yn 2012 i bedwerydd yn 2013.

6.7.3 Trafodir yr ymatebion i Arolygon Holi Caerdydd 2012 a 2013 i'r cwestiwn "Pa welliannau yr hoffech chi eu gweld i drafnidiaeth yng Nghaerdydd, a beth ddylai Caerdydd fuddsoddi ynddo yn y dyfodol yn eich barn chi?" isod.

6.7.4 Yn 2012, y gwelliannau a ffafriwyd fwyaf oedd cyfnewidfa drafnidiaeth well yng nghanol y ddinas (44%), llai o dagfeydd (43%) a mynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon ac anghyfrifol (40%). Lleihau tagfeydd (26%), cyfleusterau beicio (25%) a chyfnewidfa drafnidiaeth well yng nghanol y ddinas (22%) oedd y tair blaenoriaeth fwyaf poblogaidd ar gyfer buddsoddi.

6.7.5 Yn 2013, roedd bron i hanner (48.6%) y rheini a ymatebodd am weld gwelliannau o ran tagfeydd yng Nghaerdydd. Dyma oedd y flaenoriaeth bennaf ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol hefyd, gyda 28.0% o'r preswylwyr yn dewis hyn fel un o'u tri opsiwn. Nodwyd y canlynol fel meysydd eraill i'w gwella:

- Mynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon / anystyriol (39.3%)
- Cyfnewidfa drafnidiaeth well yng nghanol y ddinas (39.2%)
- Cyfleusterau beicio a llwybrau beicio gwell (37.8%)
- Cyfleusterau gwell i gerddwyr a llwybrau cerdded gwell (33.7%)

Nodwyd y canlynol fel meysydd eraill i fuddsoddi ynddynt:

- Cyfleusterau beicio a llwybrau beicio gwell (25.4%)
- Mynd i’r afael â pharcio anghyfreithlon / anystyriol (19.2%)
- Cyfnewidfa drafnidiaeth well yng nghanol y ddinas (17.2%)
- Bysus amlach a mwy dibynadwy (16.1%).

Tabl 6.1 Dadansoddi Problemau, canlyniadau Arolwg Holi Caerdydd 2012-2013

| **Problem** | **Grŵp** | **2012** | | **2013** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tagfeydd traffig | Rhwydwaith Ffyrdd | 1067 | 47% | 1505 | 56% |
| Costau parcio | Rhwydwaith Ffyrdd | 1039 | 46% | 1376 | 51% |
| Cyflwr y rhwydwaith ffyrdd | Rhwydwaith Ffyrdd | 790 | 35% | 1129 | 42% |
| Parcio anghyfreithlon / anystyriol | Rhwydwaith Ffyrdd | 680 | 30% | 932 | 35% |
| Y llefydd parcio sydd ar gael | Rhwydwaith Ffyrdd | 758 | 34% | 931 | 35% |
| Cyfleusterau beicio gwael | Beicio | 647 | 29% | 867 | 32% |
| Cost trafnidiaeth gyhoeddus | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 768 | 34% | 808 | 30% |
| Ansawdd / glendid / hygyrchedd / gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 784 | 35% | 813 | 30% |
| Amlder / argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 619 | 27% | 638 | 24% |
| Gorsaf fysus | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 802 | 36% | 561 | 21% |
| Newidiadau i lwybrau bysus canol y ddinas | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 447 | 20% | 533 | 20% |
| Dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 549 | 24% | 432 | 16% |
| Arall (nodwch) | Amrywiol | 338 | 15% | 358 | 13% |
| Diffyg gwybodaeth am ddewisiadau trafnidiaeth | Gwybodaeth | 254 | 11% | 333 | 12% |
| Dim problemau | Amrywiol | 53 | 2% | 58 | 2% |

Siart 6.1 Dadansoddi Problemau, canlyniadau Arolwg Holi Caerdydd 2012-2013



## 6.8 Arolwg Teithio Rhanbarthol SEWTA

6.8.1 Cynhaliwyd Arolwg Teithio Rhanbarthol sylfaenol gan gyn-awdurdodau SEWTA yn 2005. Dosbarthwyd arolwg dilynol yn 2014 (ar-lein yn bennaf, gyda rhai holiaduron post yn cael eu hanfon allan ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd).

6.8.2 Dylid nodi y cafwyd llai o ymatebion i arolwg 2014 o gymharu ag arolwg 2005; cyfanswm o 1,869 o ymatebion, a oedd yn llai na thri chwarter (73.7%) ffigur 2005, pan gafwyd 2,537 o ymatebion. Daeth dros hanner o'r ymatebion gan breswylwyr Caerdydd (56.1%). At hynny, mae dadansoddiad demograffig-gymdeithasol o broffil yr ymatebwyr yn dangos bod gan rai grwpiau ormod o gynrychiolaeth – er enghraifft, roedd 57.9% o'r ymatebwyr yn fenywaidd a 42.1% yn wrywaidd. O gymharu, roedd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2013 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod 51.0% o boblogaeth De-ddwyrain Cymru yn fenywaidd. Nid oes digon o gynrychiolaeth gan grwpiau eraill – er enghraifft, pobl rhwng 16 a 24 oed a hŷn na 65 oed a'r rheini sy'n nodi eu bod yn anabl a/neu yn dioddef o salwch cyfyngus hirdymor.

6.8.3 Gofynnwyd i ymatebwyr nodi lle y dylai mwy o arian gael ei wario ar wasanaethau trafnidiaeth yn eu barn nhw drwy ddewis hyd at 5 opsiwn allan o 29. Yn rhanbarthol, cynnal a chadw ffyrdd (68.7%) a chynnal a chadw palmentydd (52.7%) oedd yr atebion mwyaf poblogaidd ar gyfer ymatebwyr 2014. Llwybrau beicio oddi ar y ffordd oedd y mwyaf poblogaidd namyn un, gyda 42%.

6.8.4 Roedd ychydig o dan dri chwarter (72.4%) yr ymatebwyr yn teimlo bod y lefel gyfredol o wariant ar drafnidiaeth yn briodol; yr un ffigur bron ag yn 2005, sef 73.1%. Fodd bynnag, roedd cyfran fwy yn credu y dylid cynyddu gwariant (15.5% yn 2014 o gymharu ag 8.2% yn 2005). Roedd tuag un o bob wyth (12.1%) person yn credu y dylid cwtogi gwariant; lawr o bron i un o bob pump (18.4%) yn 2005.

6.8.5 Cynhaliwyd dadansoddiad Pareto o'r ymatebion i'r cwestiwn "Lle ydych chi'n meddwl y gellid gwario mwy o arian ar wasanaethau trafnidiaeth?" gan ymatebwyr sy'n byw yng Nghaerdydd (gweler ffigur 6.3). Mae'r dechneg Pareto'n awgrymu bod tua 80% o'r effeithiau yn deillio o 20% o'r problemau ac yn dynodi prif achosion problem fel y gall adnoddau gael eu ffocysu ar achos problemau sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer gwelliant.

6.8.6 Mae'r dadansoddiad Pareto isod yn nodi mai'r prif feysydd i'w gwella yw:

- Cynnal a chadw (ffyrdd a phalmentydd)
- Gwelliannau i wasanaethau bysus (e.e. amlder, prydlondeb)
- Gwasanaethau bysus a threnau integredig (e.e. tocynnau ar y cyd)
- Llwybrau a lonydd beicio (ar y ffordd ac oddi ar y ffordd)
- Gwelliannau o ran diogelwch ffyrdd (e.e. croesfannau i gerddwyr, cyfyngiadau cyflymder).

Tabl 6.2 Dadansoddiad Pareto o Wariant Trafnidiaeth, Arolwg Trafnidiaeth Rhanbarthol 2014

| Ymateb | Nifer yr ymatebion | % | Cronnol |
|---|---|---|---|
| Cynnal a chadw | 1292 | 22% | 22% |
| Gwelliannau i wasanaethau bysus | 1008 | 17% | 39% |
| Gwasanaethau bysus a threnau integredig | 967 | 17% | 56% |
| Llwybrau a lonydd beicio | 711 | 12% | 68% |
| Gwelliannau o ran diogelwch ffyrdd | 624 | 11% | 79% |
| Gwelliannau i wasanaethau trên | 586 | 10% | 89% |
| Mwy o barcio yng nghanol y dref | 213 | 4% | 93% |
| Ffyrdd newydd / lletach | 162 | 3% | 96% |
| Gwasanaethau Parcio a Theithio | 135 | 2% | 98% |
| Gwasanaethau hygyrch | 87 | 2% | 100% |
| Arall | 0 | 0% | 100% |
| Cyfanswm | 5785 | 100% | 100% |

Siart 6.3 Dadansoddiad Pareto o Wariant Trafnidiaeth, Arolwg Trafnidiaeth Rhanbarthol 2014



## 6.9 Problemau a blaenoriaethau

6.9.1 Mae arolygon SEWTA a Holi Caerdydd yn dangos barn y cyhoedd ar ba fesurau trafnidiaeth y dylid eu blaenoriaethu a pha broblemau y mae angen eu datrys. Er enghraifft, mae'n amlwg o arolwg Holi Caerdydd bod tagfeydd yn broblem fawr ac yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad. Adlewyrchir effaith y twf a ragwelir yn y CDLl (cynnydd net o 32% mewn traffig) ar y lefelau presennol o dagfeydd yn ymrwymiad y CDLl i sicrhau bod 50% o'r holl deithiau sy'n cael eu gwneud ar y rhwydwaith trafnidiaeth yn cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy. Diben y rhaglen o gynlluniau a nodir yn y rhaglen 5 mlynedd (2015-2020) a'r rhaglen tymor canolig (2020-2030) yw cefnogi'r newid moddol sylweddol hwn drwy ddarparu trafnidiaeth ddiogel, effeithlon a chynaliadwy i bawb, a sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ddewisiadau amgen go iawn i deithio yn y car.

6.9.2 Mae cyflwr y rhwydwaith ffyrdd hefyd yn bryder sylweddol i ymatebwyr arolygon Holi Caerdydd a SEWTA. Mae CDC wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfer rheoli asedau priffyrdd yn y tymor hwy (e.e. lonydd cerbydau, troedffyrdd, lonydd beicio ac adeileddau).

6.9.3 Mae'r ymatebion yn nodi bod gwelliannau i feicwyr yn flaenoriaeth glir ymysg y cyhoedd. Mae'r rhaglen 5 mlynedd a'r rhaglen tymor canolig yn cynnwys lefel uchel o fuddsoddiad yn y Rhwydwaith Beicio Strategol.

6.9.4 Mae mynd i'r afael â pharcio anghyfreithlon ac anghyfrifol hefyd yn flaenoriaeth uchel y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hi drwy Orfodi Parcio Sifil, Gorfodi Troseddau Traffig sy'n Symud, cyfyngiadau parcio a pharcio a theithio.

## 7.0 Monitro a Gwerthuso

### 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae cynlluniau Monitro a Gwerthuso wedi'u datblygu ar gyfer pob rhaglen, yn disgrifio sut y caiff pob ymyriad a'i effeithiau eu monitro.

7.1.2 Mae pob cynllun Monitro a Gwerthuso yn nodi'r canlynol:

- Angen: yr angen y dylai'r ymyriad ei fodloni
- Disgrifiad o'r project: disgrifiad manwl o'r ymyriad
- Amcanion: amcanion yr ymyriad
- Cyd-destun: gwybodaeth am yr ymyriad
- Mewnbwn: pa adnoddau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r ymyriad
- Allbwn: manylion am yr hyn a gyflawnir
- Canlyniadau: canlyniadau dymunol yr ymyriad
- Effaith: manylion am effeithiau'r cynllun, p'un a ellir eu mesur, ac os felly, sut
- Risgiau/gwersi a ddysgwyd: risgiau allweddol a allai effeithio ar gyflawni'r manteision arfaethedig, camau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a'r risgiau o gofnodi'r effeithiau disgwyliedig
- Amserlen: ar gyfer llunio adroddiad gwerthuso.

### 7.2 Cynllun Monitro a Gwerthuso'r Rhaglen Cymdogaethau Cerddadwy

| **Cynllun** | **Cynlluniau Cymdogaethau Cerddadwy – Gwerthuso a Monitro'r CTLl** |
|---|---|
| Angen | Darparu seilwaith a mesurau cysylltiedig a fydd yn cynyddu nifer y bobl sy'n cerdded i wasanaethau a chyfleusterau lleol yn hytrach na defnyddio'r car. |
| Disgrifiad o'r project | Darparu pecyn cydlynol o welliannau i amgylcheddau cerdded lleol mewn ardaloedd a nodir yng Nghaerdydd.<br>Mae Cynlluniau RhCC yn cynnwys cyfleusterau croesi gwell, ansawdd palmentydd, lleoliad cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus a gweithredu mesurau diogelwch, ac fe'u cefnogir gan waith partneriaeth.<br>Mae'r cynlluniau'n cael eu cyflwyno gam wrth gam i gyd-fynd â chyflawni gwelliannau trafnidiaeth eraill, cynlluniau adnewyddu cymdogaethau a rhaglen y Cyngor ar gyfer datblygu a gweithredu Hybiau lleol. Caiff cynlluniau eu darparu mewn camau sy'n gysylltiedig â phellter / amser cerdded o'r Hybiau. |
| Amcanion | • Bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o batrymau teithio ledled Caerdydd ac mewn ardaloedd lleol penodol<br>• Bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o ffactorau sy'n atal pobl rhag cerdded o ddydd i ddydd<br>• Cynnwys archwiliad o seilwaith cerdded presennol<br>• Canolbwyntio ar atyniadau cerdded allweddol<br>• Cynnwys ac ymgysylltu â phob grŵp rhanddeiliad allweddol, gan gynnwys pobl nad ydynt yn cerdded yn aml ar hyn o bryd<br>• Integreiddio'n llawn â rhaglenni trafnidiaeth, priffyrdd ac adnewyddu cymdogaethau amrywiol CDC a bod yn rhan o |

| | |
|---|---|
| | fframwaith sy’n sicrhau bod buddsoddiad mewn seilwaith cerdded yn strategol, yn cynrychioli gwerth am arian ac yn cael yr effaith fwyaf posibl o ran annog cerdded<br>• Integreiddio’n llawn â chamau gweithredu i annog teithio llesol. |
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, llai o blant yn cerdded i'r ysgol, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>**Arolygon Sylfaenol a ‘Blaenorol’**<br>Cynhaliwyd arolygon ac ymgynghoriadau i lywio datblygiad cynlluniau Cymdogaethau Cerddadwy a gynigiwyd. Darparodd hyn:<br>• Syniad o batrymau cerdded ‘blaenorol’ yn y ddinas<br>• Digwyddiadau ymgynghori penodol i geisio gwybodaeth am batrymau cerdded preswylwyr o fewn ardaloedd gweithredu cychwynnol<br>• Gwybodaeth am safbwyntiau ar gerdded.<br><br>Cynhelir cyfrifiadau cerdded ychwanegol mewn lleoliadau allweddol o fewn ardaloedd gweithredu cyn i’r cynllun gael ei weithredu er mwyn darparu data llinell sylfaen ar lefelau cerdded gwirioneddol. Bydd arolygon yn adlewyrchu maint yr ardal yr effeithir arni gan gynlluniau a weithredir, yn ogystal â natur y mesurau arfaethedig.<br><br>Cesglir data fel a ganlyn:<br>• Lleoliadau â’r llwybrau cerdded prysuraf tebygol o fewn yr ardaloedd, yn ddelfrydol gyda lleoliadau ychwanegol o lwybrau llif cerddwyr i sicrhau bod amrywiaeth o lwybrau’n cael eu cwmpasu;<br>• Pennir lleoliadau arolygu gan natur y mesur sydd i'w weithredu. Er enghraifft, byddai lleoliadau unrhyw groesfannau arfaethedig yn cynrychioli lleoliad dewisol yr arolwg.<br>• Bydd arolygon yn cwmpasu’r cyfnodau prysuraf disgwyliedig o ran llif cerddwyr, gan gwmpasu 12 awr (yn ystod y dydd) neu 24 awr os na ellir amcangyfrif yr oriau brig yn gywir ymlaen llaw.<br>• Cynhelir arolygon ar ddiwrnodau niwtral yn ystod y tymor ysgol, heb fod unrhyw ffactorau lleol eraill yn effeithio ar lefelau cerdded; a<br>• Bydd yr arolygon yn arwain at ddata ar gyfeiriad llif cerddwyr.<br><br>Cynhelir arolygon ‘blaenorol’ ar sail flynyddol yn dilyn cyfnod addas o amser ar ôl gweithredu. Bydd y rhain yn gyson ag arolygon 'blaenorol', i sicrhau bod y canlyniadau'n darparu cymhariaeth uniongyrchol. Ystyrir materion fel y tywydd a goleuadau stryd, a sicrheir bod y rhain mor gyson â phosibl â’r arolygon blaenorol.<br>Lle y bo’n briodol, cynhelir arolygon ‘dilynol’ i fonitro'r effaith ar farn a safbwyntiau ar gerdded. Bydd hyn yn gysylltiedig â’r ymatebion cychwynnol i’r ymgynghoriad, a gafwyd yn ystod y camau paratoadol. Bydd dadansoddiad o’r effaith ar lefelau cerdded o fewn yr ardaloedd |

| | |
|---|---|
| | gweithredu yn gwerthuso i ba raddau y mae'r cynlluniau a weithredwyd wedi cyflawni'r nod cyffredinol o gynyddu lefelau cerdded.<br>Er mwyn cynrychioli gwerth gorau i CDC, bydd y gwaith monitro'n gymesur â'r lefel o fuddsoddiad mewn cyfleusterau seilwaith cerdded. |
| Mewnbwn | • Y gost o ddarparu'r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | Bydd y cynlluniau'n cynnwys: croesfannau; adleoli llochesi bws a chelfi stryd eraill; teledu cylch cyfyng (CCTV); lledaenu troedffyrdd; gwella ansawdd troedffyrdd; creu troedffyrdd newydd; cyrbau is; palmant botymog; cysylltiadau oddi ar y ffordd; arwyddion lleol. |
| Canlyniada u | • Mwy o deithiau cerdded a chysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus ar droed.<br>• Mwy o blant yn cerdded a beicio i'r ysgol.<br>• Llai o gerbydau'n teithio i'r ardal leol ac yn parcio yno.<br>• Lleihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>• Hwb i economi'r ardal leol. |
| Effaith | • Mwy o deithiau cerdded a chysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus ar droed - wedi'i fesur yn ôl cyfrifiadau cerdded a thrwy arolygon teithio yn Hybiau'r Cyngor<br>• Mwy o blant yn cerdded a beicio i'r ysgol – wedi'i fesur drwy Arolygon Teithio Blynyddol<br>• Llai o gerbydau'n teithio i'r ardal leol ac yn parcio yno – wedi'i fesur yn ôl Cyfrifiadau Traffig a Pharcio<br>• Lleihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol – wedi'i fesur yn ôl Ystadegau Troseddau<br>• Hwb i economi'r ardal leol ehangach – anodd mesur. |
| Risgiau | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau'r Cyngor) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy'n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

### 7.3 Cynllun Monitro a Gwerthuso rhaglen Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd

| **Cynllun** | **Datblygu Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys)** |
|---|---|
| Angen | Darparu rhwydwaith cydlynol, diogel a deniadol o lwybrau beicio i |

| | |
|---|---|
| | hwyluso beicio lleol. |
| Disgrifiad o'r project | Datblygu seilwaith i ddarparu llwybrau beicio parhaus ag arwyddion a hwyluso beicio ar y rhwydwaith priffyrdd, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Lonydd beicio ar y ffordd a mesurau eraill i ailddyrannu gofod ar y ffordd i feicwyr<br>• Darparu llwybrau ar wahân ar gyfer beicio<br>• Arafu traffig<br>• Mesurau athreiddedd hidledig<br>• Croesfannau Twcan a Sebra<br>• Addasiadau i gyffyrdd i hwyluso symudiadau beiciau, e.e. wrth gyffyrdd ag arwyddion<br>• Blaenoriaeth i feiciau wrth gyffyrdd<br>• Datblygu a gwella llwybrau oddi ar y ffordd, gan gynnwys llwybrau di-draffig newydd, lledaenu llwybrau a throedffyrdd, trosi troedffyrdd ac ati. |
| Amcanion | • Datblygu Rhwydwaith Beicio Strategol Caerdydd (Enfys) - darparu rhwydwaith cydlynol, diogel a deniadol o lwybrau beicio i hwyluso beicio lleol.<br>• Darparu llwybrau a chyfleusterau o ansawdd uchel sy'n galluogi pobl i deithio o ddydd i ddydd ar y beic.<br>• Cynyddu lefelau beicio a'r gyfran o deithiau dyddiol sy'n cael eu gwneud ar y beic. |
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, cwynion am ansawdd y seilwaith beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>**Llif Beicio**<br>1. Cyfrifiadau Blynyddol – Arolygon undydd blynyddol â llaw (12 awr) yn:<br>• Llinell sgrinio Afon Taf<br>• Canol y Ddinas<br>• Bae Caerdydd.<br><br>2. Arolygon blaenorol a dilynol â llaw ar gyfer darnau o'r rhwydwaith beicio yr effeithir arnynt gan gynlluniau / gwelliannau newydd:<br>• Darnau allweddol o'r prif lwybr beicio<br>• Cysylltiadau â'r prif lwybr<br>• Cyffyrdd / croesfannau lle mae gwelliannau wedi'u gwneud.<br><br>Cynhelir arolygon 'blaenorol' ar sail flynyddol yn dilyn cyfnod addas o amser ar ôl gweithredu. Bydd y rhain yn gyson ag arolygon 'blaenorol', i sicrhau bod y canlyniadau'n darparu cymhariaeth uniongyrchol. Ystyrir materion fel y tywydd a goleuadau stryd, a |

| | |
|---|---|
| | sicrheir bod y rhain mor gyson â phosibl â'r arolygon blaenorol.<br>Lle y bo'n briodol, cynhelir arolygon 'dilynol' i fonitro'r effaith ar farn a safbwyntiau defnyddwyr y llwybr. Bydd hyn yn gysylltiedig â'r ymatebion cychwynnol i'r ymgynghoriad, a gafwyd yn ystod y camau paratoadol.<br>Bydd dadansoddiad o'r effaith ar lefelau beicio o fewn yr ardaloedd gweithredu yn gwerthuso i ba raddau y mae'r cynlluniau a weithredwyd wedi cyflawni'r nod cyffredinol o gynyddu lefelau beicio.<br>Er mwyn cynrychioli gwerth gorau i CDC, bydd y gwaith monitro'n gymesur â'r lefel o fuddsoddiad mewn cyfleusterau seilwaith.<br><br>3. Data Cyfrifiadau Llwybr Awtomataidd (ar lwybrau di-draffig).<br><br>**Teithio i'r Gwaith**<br>Arolwg blynyddol Holi Caerdydd – i fonitro'r gyfran o deithiau gwaith a wneir ar y beic.<br><br>**Adborth Defnyddwyr**<br>Adborth ansoddol a geir drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau Gweithgor Cyswllt Beicio'r Cyngor, Cardiff Cycling City, Grŵp Ffocws Mynediad Cyngor Caerdydd a gohebiaeth gyffredinol. |
| Mewnbwn | • Y gost o ddarparu'r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid.<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | Y llwybrau a'r cyfleusterau a grëir – disgrifiad a hydoedd, lle y bo'n briodol:<br>• Mesurau ar briffyrdd – seilwaith beicio, e.e. lonydd, ac addasiadau eraill i briffyrdd i hwyluso beicio, e.e. arafu traffig, culhau cyffyrdd, mesurau rheoli cyflymder ac ati<br>• Mesurau oddi ar y priffyrdd<br>• Croesfannau a ddarperir<br>• Addasiadau i gyffyrdd<br>• Arwyddion<br>• Elfennau eraill o gynlluniau, fel y bo'n berthnasol. |
| Canlyniadau | • Cynnydd yn nifer y bobl sy'n teithio ar feic.<br>• Cynnydd yng nghyfran moddol teithiau ar feic.<br>• Cynnydd mewn lefelau ymarfer corff. |
| Effaith | • Mwy o ddefnydd o lwybr – wedi'i fesur gan arolygon llif beicio a chyfrifiadau awtomatig<br>• Lleihau / gwaredu tarfu a achosir gan ffyrdd prysur / cyffyrdd sydd wedi'u dylunio'n wael drwy fesurau sy'n ei gwneud yn bosibl ac yn haws i feicwyr groesi / symud ac ati – wedi'i fesur drwy arolygon safle blaenorol a dilynol wrth groesfannau / cyffyrdd |

| | |
|---|---|
| | • Gwelliannau i ansawdd a defnyddioldeb llwybrau a chyfleusterau – wedi'i fesur drwy arolygon defnyddwyr, adborth gan randdeiliaid a gohebiaeth. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau CDC) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy'n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

## 7.4 Rhaglen bysus - Cynllun Monitro a Gwerthuso Rhwydwaith Bysus Strategol

| **Cynllun** | **Gwelliannau Cynllun Bysus** |
|---|---|
| Angen | Creu rhwydwaith mwy effeithlon ac annog teithio cynaliadwy. |
| Disgrifiad o'r project | Mae'r gwelliannau'n cynnwys y canlynol:<br>• Lonydd bysus, gatiau bysus a gwelliannau eraill o ran blaenoriaeth i fysus;<br>• Newidiadau i gamau signalau a lonydd i wella effeithlonrwydd a diogelwch;<br>• Cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd wrth ddynesu at gyffyrdd;<br>• Mynediad gwell i gyfnewidfa fysus a chyfleusterau safle bws. |
| Amcanion | • Cynnig trafnidiaeth ddiogel, effeithlon a chynaliadwy i bawb, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ddewisiadau amgen go iawn i deithio mewn car.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth o ddewisiadau teithio ymarferol a deniadol ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.<br>• Cyflwyno amrywiaeth o fesurau i leihau'r galw cyffredinol am deithio, yn arbennig mewn ceir, lle y bo'n briodol.<br>• Defnyddio amrywiaeth o fesurau i wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith presennol. |

| | |
|---|---|
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, ciwiau, tagfeydd ac oedi, cwynion am ansawdd y seilwaith cerdded a beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>**Llif Traffig a Chyfrif Cerddwyr**<br>1. Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn<br><br>Cynhelir arolygon 'blaenorol' ar sail flynyddol yn dilyn cyfnod addas o amser ar ôl gweithredu. Bydd y rhain yn gyson ag arolygon 'blaenorol', i sicrhau bod y canlyniadau'n darparu cymhariaeth uniongyrchol. Ystyrir materion fel y tywydd a goleuadau stryd, a sicrheir bod y rhain mor gyson â phosibl â'r arolygon blaenorol. Lle y bo'n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr (e.e. cyfrif cerddwyr). Gall hefyd fod yn briodol defnyddio offer cyfrif awtomatig, yn arbennig i nodi amrywiadau. Er mwyn cynrychioli gwerth gorau i CDC, bydd y gwaith monitro'n gymesur â'r lefel o fuddsoddiad mewn cyfleusterau seilwaith.<br><br>2. Arolygon Cerddwyr Blynyddol Caerdydd – Arolygon cerddwyr undydd blynyddol â llaw (12 awr)<br>• Canol y Ddinas<br>• Bae Caerdydd.<br><br>**Ciwio ac Amseroedd Teithio**<br>Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn: Caiff arolygon blaenorol a dilynol o giwiau ac amseroedd teithio eu cymharu i nodi a yw'r gwelliannau wedi mynd i'r afael â thagfeydd ac oedi. Lle y bo'n briodol, gall data ar amser teithio bysus o'r system wybodaeth amser real helpu i lywio'r asesiad hwn. Lle y bo'n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr.<br><br>**Teithio i'r Gwaith**<br>Arolwg blynyddol Holi Caerdydd – i fonitro'r gyfran o deithiau gwaith a wneir mewn bws. |
| Mewnbwn | • Dadansoddiad manwl<br>• Cost o gyflawni gwelliannau i seilwaith<br>• Gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |

| | |
|---|---|
| Allbwn | Manylion am:<br>• Y ddarpariaeth o lwybrau a rennir, croesfannau i gerddwyr a Chroesfannau Twcan;<br>• Lonydd bysus, gatiau bysus a gwelliannau eraill o ran blaenoriaeth i fysus;<br>• Newidiadau i gamau signalau a lonydd i wella effeithlonrwydd a diogelwch;<br>• Cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd wrth ddynesu at gyffyrdd;<br>• Mynediad gwell i gyfnewidfa fysus a chyfleusterau safle bws. |
| Canlyniadau | • Rhaniad moddol gwell o deithiau a wneir drwy ddulliau cynaliadwy;<br>• Amseroedd teithio byrrach a dibynadwyedd gwell, yn arbennig ar gyfer dulliau teithio cynaliadwy;<br>• Llai o giwiau, tagfeydd ac oedi (yn arbennig yn sgîl newid moddol). |
| Effaith | • Defnydd o lwybr / newid moddol – wedi’i fesur drwy arolygon cyfrif a chyfrifwyr awtomatig;<br>• Gwelliannau i amseroedd teithio a dibynadwyedd - arolygon ciwiau a/neu amser teithio;<br>• Mwy o ddefnyddwyr bysus – arolygon. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau CDC) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy’n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

### 7.5 Cynllun Monitro a Gwerthuso rhaglen Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd

| **Cynllun** | **Metro Prifddinas-ranbarth Caerdydd** |
|---|---|
| Angen | Creu rhwydwaith mwy effeithlon ac annog teithio cynaliadwy mewn dinas-ranbarth ddeinamig, gysylltiedig lle mae pobl yn mwynhau bywyd. |

| | |
|---|---|
| Disgrifiad o'r project | • Cyswllt rheilffordd ysgafn yn cysylltu Gorsafoedd Heol-y-Frenhines a Chaerdydd Canolog â Bae Caerdydd<br>• Cyswllt cludiant cyflym newydd yn cysylltu Pont-y-clun â Chaerdydd drwy safleoedd strategol yn gwasanaethu datblygiad mawr newydd. |
| Amcanion | • Cynnig trafnidiaeth ddiogel, effeithlon a chynaliadwy i bawb, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ddewisiadau amgen go iawn i deithio mewn car.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth o ddewisiadau teithio ymarferol a deniadol ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.<br>• Cyflwyno amrywiaeth o fesurau i leihau'r galw cyffredinol am deithio, yn arbennig mewn ceir, lle y bo'n briodol.<br>• Defnyddio amrywiaeth o fesurau i wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith presennol. |

| | |
|---|---|
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, ciwiau, tagfeydd ac oedi, cwynion am ansawdd y seilwaith cerdded a beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>**Llif Traffig a Chyfrif Cerddwyr**<br>1. Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn<br><br>Cynhelir arolygon 'blaenorol' ar sail flynyddol yn dilyn cyfnod addas o amser ar ôl gweithredu. Bydd y rhain yn gyson ag arolygon 'blaenorol', i sicrhau bod y canlyniadau'n darparu cymhariaeth uniongyrchol. Ystyrir materion fel y tywydd a goleuadau stryd, a sicrheir bod y rhain mor gyson â phosibl â'r arolygon blaenorol. Lle y bo'n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr (e.e. cyfrif cerddwyr). Gall hefyd fod yn briodol defnyddio offer cyfrif awtomatig, yn arbennig i nodi amrywiadau. Er mwyn cynrychioli gwerth gorau i CDC, bydd y gwaith monitro'n gymesur â'r lefel o fuddsoddiad mewn cyfleusterau seilwaith.<br><br>2. Cyfrifiadau Blynyddol Caerdydd – Arolygon undydd blynyddol â llaw (12 awr) yn:<br>• Llinell sgrinio Afon Taf<br>• Canol y Ddinas<br>• Bae Caerdydd<br>• Y Sir<br><br>3. Cyfrifiadau Traffig Llif Dyddiol Cyfartalog Blynyddol (AADF) yr Adran Drafnidiaeth ar ffyrdd mawr y rhanbarth<br><br>4. Arolygon Defnyddwyr Trenau Blynyddol Caerdydd – Arolwg undydd blynyddol (12 awr) o nifer y bobl sy'n esgyn a gadael trenau yng ngorsafoedd Caerdydd<br><br>5. Arolwg Defnydd Gorsafoedd Trenau Blynyddol Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR) ar gyfer pob gorsaf ar draws y rhanbarth<br><br>**Ciwio ac Amseroedd Teithio**<br><br>Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn: Caiff arolygon blaenorol a dilynol o giwiau ac amseroedd teithio eu cymharu i nodi a yw'r gwelliannau wedi mynd i'r afael â thagfeydd ac oedi. Lle y bo'n briodol, gall data ar amser teithio bysus o'r system wybodaeth amser real helpu i lywio'r asesiad hwn. Lle y bo'n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr. |
| Mewnbwn | Dadansoddiad manwl, y gost o ddarparu'r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid. Arolygon blaenorol a dilynol. |

| | |
|---|---|
| Allbwn | • Darparu tram gam wrth gam a gwella llwybrau beicio a bysus strategol. |
| Canlyniadau | • Rhaniad moddol gwell o deithiau a wneir drwy ddulliau cynaliadwy;<br>• Amseroedd teithio byrrach a dibynadwyedd gwell, yn arbennig ar gyfer dulliau teithio cynaliadwy;<br>• Llai o giwiau, tagfeydd ac oedi (yn arbennig yn sgîl newid moddol). |
| Effaith | • Defnydd o lwybr / newid moddol – wedi'i fesur drwy arolygon cyfrif a chyfrifwyr awtomatig;<br>• Gwelliannau i amseroedd teithio a dibynadwyedd - arolygon ciwiau a/neu amser teithio. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau'r Cyngor) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CC sy'n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

## 7.6 Rhaglen Gwella Mynediad i Orsafoedd Lleol – Cynllun Monitro a Gwerthuso

| Cynllun | Gwelliannau i Gyfnewidiadau mewn Gorsafoedd Trenau Lleol |
|---|---|
| Angen | Gwella hygyrchedd cyfleusterau gorsafoedd lleol drwy gysylltiadau cerdded, beicio a rhyng-gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus. |
| Disgrifiad o'r project | Gwelliannau i fynediad i'r orsaf ac arwyddion, gan ganolbwyntio ar:<br>• Arwyddion – yn yr orsaf ei hun a'r cyffiniau Mapiau o'r ardal leol<br>• Yr amgylchedd cerdded<br>• Llwybrau<br>• Gwelededd yr orsaf. |
| Amcanion | • Cynnig trafnidiaeth ddiogel, effeithlon a chynaliadwy i bawb, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ddewisiadau amgen go iawn i deithio mewn car.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth o ddewisiadau teithio ymarferol a deniadol ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.<br>• Cyflwyno amrywiaeth o fesurau i leihau'r galw cyffredinol am deithio, yn arbennig mewn ceir, lle y bo'n briodol.<br>• Defnyddio amrywiaeth o fesurau i wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith presennol.<br>• Nodi cyfleoedd i wella cyfleusterau cyfnewid i oresgyn y rhwystrau |

| | |
|---|---|
| | presennol i deithiau aml-fodd.<br>• Gweithredu gwelliannau neu ymyriadau i hwyluso integreiddio rhwng pob dull teithio i drigolion lleol. |
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, ciwiau, tagfeydd ac oedi, cwynion am ansawdd y seilwaith cerdded a beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>**Cyfrif Cerddwyr**<br>1. Arolygon Defnyddwyr Trenau Blynyddol Caerdydd – Arolwg undydd blynyddol (12 awr) o nifer y bobl sy'n esgyn a gadael trenau yng ngorsafoedd Caerdydd<br><br>2. Arolwg Defnydd Gorsafoedd Trenau Blynyddol Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR) ar gyfer pob gorsaf ar draws y rhanbarth<br><br>Teithio i'r Gwaith: Arolwg blynyddol Holi Caerdydd – i fonitro'r gyfran o deithiau gwaith a wneir mewn trên. |
| Mewnbwn | • Dadansoddiad manwl<br>• Cost o gyflawni gwelliannau i seilwaith<br>• Gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | Bydd cynlluniau'n cynnwys y canlynol:<br>• Arwyddion – yn yr orsaf ei hun a'r cyffiniau<br>• Mapiau o'r ardal leol<br>• Gwelliannau i'r amgylchedd cerdded<br>• Cyfleusterau darparu gwybodaeth a'r math o wybodaeth, arwyddion i ddulliau teithio gwahanol.<br>• Gwelliannau i weledd gorsafoedd. |
| Canlyniadau | • Defnydd gwell o orsafoedd a chynnydd yn nifer y teithwyr mewn gorsafoedd lleol, gan gyfrannu at leihau'r defnydd o geir yng Nghaerdydd. |
| Effaith | • Gwell profiad i deithwyr – arolygon ansoddol<br>• Mwy o bobl yn integreiddio dulliau teithio cynaliadwy i gwblhau teithiau – arolygon teithio a chyfrifiadau beicio<br>• Mwy o bobl yn ystyried teithiau aml-fodd drwy opsiynau teithio cynaliadwy – arolygon teithio mewn gorsafoedd<br>• Mwy o deithwyr yn dod oddi ar drenau mewn gorsafoedd lleol – cyfrifiadau teithwyr a gwerthiannau tocynnau. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau'r Cyngor) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CC sy'n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian |

| | |
|---|---|
| | cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

### 7.7 Cynllun Monitro a Gwerthuso'r rhaglen Parcio a Theithio

| **Cynllun** | **Gwelliannau Parcio a Theithio** |
|---|---|
| Angen | Creu rhwydwaith mwy effeithlon ac annog teithio cynaliadwy. |
| Disgrifiad o'r project | Cynnwys y cyfleusterau canlynol i ategu'r safle Parcio a Theithio yng Nghyffordd 33:<br>• Lonydd bysus, gatiau bysus a gwelliannau eraill o ran blaenoriaeth i fysus;<br>• Gwelliannau i lwybrau Cludiant Cyflym;<br>• Newidiadau i gamau signalau a lonydd i wella effeithlonrwydd a diogelwch;<br>• Cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd wrth ddynesu at gyffyrdd;<br>• Parcio ar gyrion Caerdydd i ddargyfeirio traffig;<br>• Mynediad gwell i gyfnewidfa fysus a chyfleusterau safle bws. |
| Amcanion | • Cynnig trafnidiaeth ddiogel, effeithlon a chynaliadwy i bawb, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ddewisiadau amgen go iawn i deithio mewn car.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth o ddewisiadau teithio ymarferol a deniadol ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.<br>• Cyflwyno amrywiaeth o fesurau i leihau'r galw cyffredinol am deithio, yn arbennig mewn ceir, lle y bo'n briodol.<br>• Defnyddio amrywiaeth o fesurau i wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith presennol. |
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, ciwiau, tagfeydd ac oedi, cwynion am ansawdd y seilwaith cerdded a beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>**Llif Traffig, Cyfrif Cerddwyr ac Arolygon Defnyddwyr**<br>1. Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn<br>Cynhelir arolygon 'blaenorol' ar sail flynyddol yn dilyn cyfnod addas o amser ar ôl gweithredu. Bydd y rhain yn gyson ag arolygon 'blaenorol', i sicrhau bod y canlyniadau'n darparu cymhariaeth uniongyrchol. Ystyrir materion fel y tywydd a goleuadau stryd, a sicrheir bod y rhain |

| | |
|---|---|
| | mor gyson â phosibl â’r arolygon blaenorol. Lle y bo’n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr (e.e. cyfrif cerddwyr). Gall hefyd fod yn briodol defnyddio offer cyfrif awtomatig, yn arbennig i nodi amrywiadau. Er mwyn cynrychioli gwerth gorau i CDC, bydd y gwaith monitro’n gymesur â’r lefel o fuddsoddiad mewn cyfleusterau seilwaith. Byddai’r defnydd o leoedd parcio ar ôl gweithredu yn cael ei arolygu i nodi’r galw am y cyfleuster parcio a theithio. Efallai y caiff arolygon defnyddwyr ategol hefyd eu cynnal i nodi gwybodaeth am y farchnad a’r galw cysylltiedig.<br><br>2. Arolygon Parcio a Theithio Rheilffyrdd Blynyddol Caerdydd – Defnydd Mwyaf (1 dydd)<br><br>3. Arolygon Parcio a Theithio Dwyrain Caerdydd – Defnydd Dyddiol Cyfartalog<br><br>**Ciwio ac Amseroedd Teithio**<br>Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn: Caiff arolygon blaenorol a dilynol o giwiau ac amseroedd teithio eu cymharu mewn lleoliadau priodol i nodi a yw’r gwelliannau wedi mynd i’r afael â thagfeydd ac oedi. Lle y bo’n briodol, gall data ar amser teithio bysus o’r system wybodaeth amser real helpu i lywio’r asesiad hwn. Lle y bo’n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr. |
| Mewnbwn | • Dadansoddiad manwl<br>• Y gost o ddarparu’r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid.<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | Manylion am:<br>• Lonydd bysus, gatiau bysus a gwelliannau eraill o ran blaenoriaeth i fysus;<br>• Gwelliannau i lwybrau Cludiant Cyflym;<br>• Newidiadau i gamau signalau a lonydd i wella effeithlonrwydd a diogelwch;<br>• Cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd wrth ddynesu at gyffyrdd;<br>• Parcio ar gyrion Caerdydd i ddargyfeirio traffig;<br>• Mynediad gwell i gyfnewidfa fysus a chyfleusterau safle bws. |
| Canlyniadau | • Cynnydd yng nghyfran foddol teithiau Parcio a Theithio;<br>• Amseroedd teithio byrrach a dibynadwyedd gwell;<br>• Llai o draffig yn y coridorau perthnasol. |
| Effaith | • Defnydd o lwybr / newid moddol – wedi’i fesur drwy arolygon cyfrif a chyfrifwyr awtomatig;<br>• Gwelliannau i amseroedd teithio a dibynadwyedd - arolygon ciwiau a/neu amser teithio;<br>• Effeithiolrwydd dargyfeirio traffig – cyfrifiadau parcio a defnydd ac arolygon defnyddwyr. |

| | |
|---|---|
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau CDC) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy'n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

### 7.8 Cynllun Monitro a Gwerthuso Gwelliannau Cyffyrdd Strategol

| **Cynllun** | **Gwelliannau Cyffyrdd Strategol** |
|---|---|
| Angen | Creu rhwydwaith mwy effeithlon, gwella diogelwch ffyrdd ac annog teithio cynaliadwy. |
| Disgrifiad o'r project | Mae'r gwelliannau i gyffyrdd yn cynnwys y canlynol:<br>• Lonydd beicio ar y ffordd a mesurau eraill i ailddyrannu gofod ar y ffordd i feicwyr;<br>• Y ddarpariaeth o lwybrau a rennir, croesfannau i gerddwyr a Chroesfannau Twcan;<br>• Gwelliannau o ran blaenoriaeth i fysus;<br>• Newidiadau i gamau signalau a lonydd i wella effeithlonrwydd a diogelwch;<br>• Cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd wrth ddynesu at gyffyrdd. |
| Amcanion | • Cynnig trafnidiaeth ddiogel, effeithlon a chynaliadwy i bawb, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ddewisiadau amgen go iawn i deithio mewn car.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth o ddewisiadau teithio ymarferol a deniadol ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.<br>• Cyflwyno amrywiaeth o fesurau i leihau'r galw cyffredinol am deithio, yn arbennig mewn ceir, lle y bo'n briodol.<br>• Defnyddio amrywiaeth o fesurau i wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith presennol. |
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, ciwiau, tagfeydd ac oedi, cwynion am ansawdd y seilwaith cerdded a beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>**Llif Traffig, Cyfrifiadau Beicio a Cherdded** |

| | |
|---|---|
| | 1. Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn: Cynhelir arolygon ‘blaenorol’ ar sail flynyddol yn dilyn cyfnod addas o amser ar ôl gweithredu. Bydd y rhain yn gyson ag arolygon 'blaenorol', i sicrhau bod y canlyniadau'n darparu cymhariaeth uniongyrchol. Ystyrir materion fel y tywydd a goleuadau stryd, a sicrheir bod y rhain mor gyson â phosibl â’r arolygon blaenorol. Lle y bo’n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr. Cynhelir arolygon â llaw fel arfer oherwydd natur gymhleth symudiadau troi wrth gyffyrdd. Gall hefyd fod yn briodol defnyddio offer cyfrif awtomatig ar y ffyrdd dynesu, yn arbennig i nodi amrywiadau. Bydd dadansoddiad o’r effaith ar lefelau cerdded a beicio o fewn yr ardaloedd gweithredu yn gwerthuso i ba raddau y mae’r cynlluniau a weithredwyd wedi cyflawni’r nod cyffredinol o wella cyfleusterau a chynyddu lefelau cerdded a beicio. Er mwyn cynrychioli gwerth gorau i CDC, bydd y gwaith monitro’n gymesur â’r lefel o fuddsoddiad mewn cyfleusterau seilwaith.<br><br>2. Cyfrifiadau Blynyddol Caerdydd – Arolygon undydd blynyddol â llaw (12 awr) [fel uchod] yn:<br>• Llinell sgrinio Afon Taf<br>• Canol y Ddinas<br>• Bae Caerdydd<br>• Y Sir<br><br>3. Cyfrifiadau Traffig AADF yr Adran Drafnidiaeth ar ffyrdd mawr y rhanbarth [fel uchod].<br><br>**Ciwio ac Amseroedd Teithio:** Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn: Caiff arolygon blaenorol a dilynol o giwiau ac amseroedd teithio eu cymharu i nodi a yw’r gwelliannau wedi mynd i’r afael â thagfeydd ac oedi. Lle y bo’n briodol, gall data ar amser teithio bysus o’r system wybodaeth amser real helpu i lywio’r asesiad hwn. Lle y bo’n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr.<br><br>**Dadansoddiad Diogelwch Ffyrdd:** Cynhelir dadansoddiad o ddata cyn ac ar ôl damweiniau ac anafiadau ffyrdd yn flynyddol. Fel arfer, ceir oedi o 6 mis cyn bod data STATS19 ar gael. Felly, mae’r set ddata gynrychioliadol gyntaf fel arfer yn dod i law 18 mis ar ôl y gwelliannau. Caiff y data ei ddadansoddi i asesu p’un a yw’r gwelliannau diogelwch ffyrdd a nodwyd wedi’u cyflawni ac a fyddai angen gwneud gwaith pellach yn seiliedig ar batrymau damweiniau a ffactorau cyfrannol a nodwyd. Mae fel arfer yn cymryd 3 i 5 mlynedd i unrhyw batrymau sylweddol ymddangos yn y data. |
| Mewnbwn | • Dadansoddiad manwl<br>• Y gost o ddarparu’r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | Manylion am: |

| | |
|---|---|
| | • Lonydd beicio ar y ffordd a mesurau eraill i ailddyrannu gofod ar y ffordd i feicwyr;<br>• Y ddarpariaeth o lwybrau a rennir, croesfannau i gerddwyr a Chroesfannau Twcan;<br>• Gwelliannau o ran blaenoriaeth i fysus;<br>• Newidiadau i gamau signalau a lonydd i wella effeithlonrwydd a diogelwch;<br>• Cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd wrth ddynesu at gyffyrdd. |
| Canlyniadau | • Cynnydd yn y niferoedd sy'n cerdded a beicio;<br>• Rhaniad moddol gwell o deithiau a wneir drwy ddulliau cynaliadwy;<br>• Cynnydd mewn lefelau ymarfer corff;<br>• Amseroedd teithio byrrach a dibynadwyedd gwell, yn arbennig ar gyfer dulliau teithio cynaliadwy;<br>• Llai o giwiau, tagfeydd ac oedi (yn arbennig yn sgîl newid moddol);<br>• Ffyrdd diogelach. |
| Effaith | • Defnydd o lwybr / newid moddol – wedi'i fesur drwy arolygon cyfrif a chyfrifwyr awtomatig;<br>• Gwelliannau i amseroedd teithio a dibynadwyedd - arolygon ciwiau a/neu amser teithio;<br>• Lleihau / gwaredu tarfu a achosir gan ffyrdd prysur / cyffyrdd sydd wedi'u dylunio'n wael drwy fesurau sy'n ei gwneud yn bosibl ac yn haws i feicwyr groesi / symud ac ati – wedi'i fesur drwy arolygon safle blaenorol a dilynol wrth groesfannau / cyffyrdd;<br>• Diogelwch ffyrdd – cofnodion damweiniau ac anafiadau ar y ffordd. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau CDC) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy'n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

## 7.9 Cynllun Monitro a Gwerthuso Gwelliannau Priffyrdd Strategol

| **Cynllun** | **Gwelliannau Priffyrdd Strategol** |
|---|---|
| Angen | Creu rhwydwaith mwy effeithlon, gwella diogelwch ffyrdd ac annog teithio cynaliadwy. |
| Disgrifiad o'r | Gwelliannau Priffyrdd Strategol yn cynnwys y canlynol: |

| | |
|---|---|
| project | • Ffyrdd cyswllt newydd;<br>• Troedffyrdd newydd, llwybrau a rennir a llwybrau beicio oddi ar y ffordd;<br>• Croesfannau newydd i gerddwyr os yn briodol;<br>• Gwelliannau o ran blaenoriaeth i fysus os yn briodol;<br>• Newidiadau i gamau signalau a dyluniad lonydd i wella effeithlonrwydd a diogelwch. |
| Amcanion | • Cefnogi twf economaidd a diogelu swyddi ledled Cymru gyda ffocws penodol ar Ddinas-ranbarthau, Ardaloedd Menter ac ardaloedd twf lleol.<br>• Cynnig trafnidiaeth ddiogel, effeithlon a chynaliadwy i bawb, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ddewisiadau amgen go iawn i deithio mewn car.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth o ddewisiadau teithio ymarferol a deniadol ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau.<br>• Cyflwyno amrywiaeth o fesurau i leihau'r galw cyffredinol am deithio, yn arbennig mewn ceir, lle y bo'n briodol.<br>• Defnyddio amrywiaeth o fesurau i wneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith presennol. |
| Cyd-destun | Cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad a swyddi, lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, ciwiau, tagfeydd ac oedi, cwynion am ansawdd y seilwaith cerdded a beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>**Llif Traffig, Cyfrifiadau Beicio a Cherdded**<br>1. Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn: Cynhelir arolygon 'blaenorol' ar sail flynyddol yn dilyn cyfnod addas o amser ar ôl gweithredu. Bydd y rhain yn gyson ag arolygon 'blaenorol', i sicrhau bod y canlyniadau'n darparu cymhariaeth uniongyrchol. Ystyrir materion fel y tywydd a goleuadau stryd, a sicrheir bod y rhain mor gyson â phosibl â'r arolygon blaenorol. Lle y bo'n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr. Cynhelir arolygon â llaw fel arfer oherwydd natur gymhleth symudiadau troi wrth gyffyrdd. Gall hefyd fod yn briodol defnyddio offer cyfrif awtomatig ar y ffyrdd dynesu, yn arbennig i nodi amrywiadau. Bydd dadansoddiad o'r effaith ar lefelau cerdded a beicio o fewn yr ardaloedd gweithredu yn gwerthuso i ba raddau y mae'r cynlluniau a weithredwyd wedi cyflawni'r nod cyffredinol o wella cyfleusterau a chynyddu lefelau cerdded a beicio. Er mwyn cynrychioli gwerth gorau i CDC, bydd y gwaith monitro'n gymesur â'r lefel o fuddsoddiad mewn cyfleusterau seilwaith. Gallai fod angen i'r arolygon gael eu cynnal dros ardal eang i nodi unrhyw newidiadau sylweddol o ran ail-ddyraniad teithiau.<br><br>2. Cyfrifiadau Blynyddol Caerdydd – Arolygon traffig undydd blynyddol â llaw (12 awr) [fel uchod] yn:<br>• Llinell sgrinio Afon Taf |

| | |
|---|---|
| | • Canol y Ddinas<br>• Bae Caerdydd<br>• Y Sir<br><br>3. Cyfrifiadau Traffig AADF yr Adran Drafnidiaeth ar ffyrdd mawr y rhanbarth [fel uchod].<br><br>**Ciwio ac Amseroedd Teithio**<br>Arolygon oriau brig y Bore a'r Prynhawn: Caiff arolygon blaenorol a dilynol o giwiau ac amseroedd teithio eu cymharu i nodi a yw'r gwelliannau wedi mynd i'r afael â thagfeydd ac oedi. Lle y bo'n briodol, gall data ar amser teithio bysus o'r system wybodaeth amser real helpu i lywio'r asesiad hwn. Lle y bo'n briodol, gallai cyfnod yr arolwg fod yn hirach nag 1 awr.<br><br>**Dadansoddiad Diogelwch Ffyrdd**<br>Cynhelir dadansoddiad o ddata cyn ac ar ôl damweiniau ac anafiadau ffyrdd yn flynyddol. Fel arfer, ceir oedi o 6 mis cyn bod data STATS19 ar gael. Felly, mae'r set ddata gynrychioliadol gyntaf fel arfer yn dod i law 18 mis ar ôl y gwelliannau. Caiff y data ei ddadansoddi i asesu p'un a yw'r gwelliannau diogelwch ffyrdd a nodwyd wedi'u cyflawni ac a fyddai angen gwneud gwaith pellach yn seiliedig ar batrymau damweiniau a ffactorau cyfrannol a nodwyd. Mae fel arfer yn cymryd 3 i 5 mlynedd i unrhyw batrymau sylweddol ymddangos yn y data. |
| Mewnbwn | • Dadansoddiad manwl<br>• Y gost o ddarparu'r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | Manylion am:<br>• Ffyrdd cyswllt newydd;<br>• Troedffyrdd newydd, llwybrau a rennir a llwybrau beicio oddi ar y ffordd;<br>• Croesfannau newydd i gerddwyr os yn briodol;<br>• Gwelliannau o ran blaenoriaeth i fysus os yn briodol;<br>• Newidiadau i gamau signalau a dyluniad lonydd i wella effeithlonrwydd a diogelwch. |
| Canlyniadau | • Mynediad gwell i swyddi;<br>• Cynnydd yn y niferoedd sy'n cerdded a beicio;<br>• Rhaniad moddol gwell o deithiau a wneir drwy ddulliau cynaliadwy;<br>• Amseroedd teithio byrrach a dibynadwyedd gwell, yn arbennig ar gyfer dulliau teithio cynaliadwy;<br>• Llai o giwiau, tagfeydd ac oedi (yn arbennig yn sgîl newid moddol);<br>• Ffyrdd diogelach. |
| Effaith | • Swyddi – data arolygon cyflogaeth;<br>• Defnydd o lwybr / newid moddol – wedi'i fesur drwy arolygon cyfrif a chyfrifwyr awtomatig;<br>• Gwelliannau i amseroedd teithio a dibynadwyedd - arolygon ciwiau |

| | |
|---|---|
| | a/neu amser teithio;<br>• Lleihau / gwaredu tarfu a achosir gan ffyrdd prysur / cyffyrdd sydd wedi'u dylunio'n wael drwy fesurau sy'n ei gwneud yn bosibl ac yn haws i feicwyr groesi / symud ac ati – wedi'i fesur drwy arolygon safle blaenorol a dilynol wrth groesfannau / cyffyrdd;<br>• Diogelwch ffyrdd – cofnodion damweiniau ac anafiadau ar y ffordd. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau CDC) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy'n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

## 7.10 Cynlluniau Monitro a Gwerthuso'r rhaglen Diogelwch Ffyrdd

| **Cynllun** | **Parthau Diogelwch Ysgolion** |
|---|---|
| Angen | Annog plant a rhieni i deithio i'r ysgol ac oddi yno drwy ddulliau teithio cynaliadwy a gwella diogelwch ffyrdd y tu allan i ysgolion, yn arbennig ar gyfer plant sy'n cerdded a beicio. |

| | |
|---|---|
| Disgrifiad o'r project | Bydd cynlluniau'n cynnwys y canlynol:<br>• Creu parth y tu allan i gatiau ysgolion lle gwaherddir parcio (neu y cyfyngir arno) a lle caiff traffig ei arafu (fel arfer 20mya);<br>• Bydd y parth fel arfer yn cynnwys porth ar y naill ochr a chroesfan ddiogel i gerddwyr;<br>• Lonydd beicio ar y ffordd a mesurau eraill i ailddyrannu gofod ar y ffordd i feicwyr;<br>• Y ddarpariaeth o lwybrau a rennir, croesfannau i gerddwyr a Chroesfannau Twcan;<br>• Cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd wrth ddynesu at gyffyrdd. |
| Amcanion | • Cynnig mynediad diogel a chyfleus i'r ysgol ac oddi yno i blant a rhieni gan ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy. |
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, ciwiau, tagfeydd ac oedi, cwynion am ansawdd y seilwaith cerdded a beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol.<br><br>Data Damweiniau STATS19, i gynnwys:<br>• Damweiniau Angheuol neu Anafiadau Difrifol (KSI)<br>• Damweiniau KSI - Plant<br>• Mân Anafiadau fesul 100vkm<br>• Damweiniau KSI - Cerddwyr<br>• Damweiniau KSI - Beicwyr |
| Mewnbwn | • Dadansoddiad manwl<br>• Y gost o ddarparu'r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid.<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | • Lonydd beicio ar y ffordd a mesurau eraill i ailddyrannu gofod ar y ffordd i feicwyr;<br>• Y ddarpariaeth o lwybrau a rennir, croesfannau i gerddwyr a Chroesfannau Twcan;<br>• Gwelliannau o ran blaenoriaeth i fysus;<br>• Newidiadau i gamau signalau a lonydd i wella effeithlonrwydd a diogelwch;<br>• Cael gwared ar leoedd parcio ar y stryd wrth ddynesu at gyffyrdd. |
| Canlyniadau | • Cynnydd yn y niferoedd sy'n cerdded a beicio;<br>• Rhaniad moddol gwell o deithiau a wneir drwy ddulliau cynaliadwy;<br>• Cynnydd mewn lefelau ymarfer corff;<br>• Amseroedd teithio byrrach a dibynadwyedd gwell, yn arbennig ar gyfer dulliau teithio cynaliadwy;<br>• Llai o giwiau, tagfeydd ac oedi (yn arbennig yn sgîl newid moddol);<br>• Ffyrdd diogelach. |

| | |
|---|---|
| Effaith | • Newid moddol i ddulliau teithio cynaliadwy – Cyfrifiadau mewn ysgolion;<br>• Llai o barcio ger ysgolion – arolygon parcio;<br>• Ffyrdd diogelach - cofnodion damweiniau ac anafiadau ar y ffyrdd - Cofnodion damweiniau ac anafiadau'r Heddlu;<br>• Amgylchedd o ansawdd gwell y tu allan i ysgolion - arolygon ansoddol mewn ysgolion. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau CDC) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy’n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd, cyflwr tir nas rhagwelwyd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. Mae’n debygol o fod yn gyson ag Archwiliadau Diogelwch Ffyrdd a gaiff eu cynnal 1 a 3 blynedd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. |

| **Cynllun** | **Cynlluniau Diogelwch Troedffyrdd** |
|---|---|
| Angen | Creu cysylltiadau troedffyrdd gwell a diogelach, yn arbennig mewn ardaloedd cymunedol prysur. |
| Disgrifiad o’r project | Bydd y gwelliannau’n cynnwys troedffyrdd (ar hyd lonydd cerbydau) a llwybrau cerdded (yn cysylltu ardaloedd a throedffyrdd). Caiff y cyfleusterau hyn eu creu mewn lleoliadau lle nad oes gan gerddwyr gysylltiadau diogel a chyfleus â chyfleusterau fel ysgolion, siopau, ardaloedd cymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus (safleoedd bws a gorsafoedd trenau). Rhoddir ystyriaeth arbennig i ardaloedd lle ceir llif uchel o gerbydau a cherddwyr. |
| Amcanion | Creu llwybrau diogel a hwylus i gerddwyr. |
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, ciwiau, tagfeydd ac oedi, cwynion am ansawdd y seilwaith cerdded a beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol. |
| Mewnbwn | • Dadansoddiad manwl<br>• Y gost o ddarparu’r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid.<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | Creu llwybrau diogel a hwylus i gerddwyr. |

| | |
|---|---|
| Canlyniadau | Mwy o gerddwyr. |
| Effaith | Cyfrifiadau cerddwyr. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau CDC) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy'n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd a chyflwr tir nas rhagwelwyd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

| **Cynllun** | **Cynlluniau Defnyddwyr Ffordd Agored i Niwed** |
|---|---|
| Angen | Creu llwybrau diogelach a mwy cyfleus i ddefnyddwyr ffordd sy'n agored i niwed (yn arbennig plant, yr henoed a phobl anabl) a beicwyr i annog newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy. |
| Disgrifiad o'r project | Mae'r gwelliannau o ran diogelwch ar y ffyrdd yn cynnwys y canlynol:<br>• Croesfannau i gerddwyr (Sebra, Pelican a Thwcan)<br>• Croesfannau nas rheoli.  Bydd y rhain fel arfer ar ffurf cyrbau is neu groesfannau dyrchafedig a byddant yn aml ar ffurf cyffordd ddyrchafedig.<br>• Ardaloedd 20mya ac arafu traffig.  Bydd yr ardaloedd hyn yn cynnwys porth i mewn i'r ardal, twmpathau ffordd, rhwystrau ymwthiol wrth gyffyrdd a lledaenu troedffyrdd (culhau ffyrdd). |
| Amcanion | • Arafu traffig;<br>• Rhoi blaenoriaeth i ddulliau teithio cynaliadwy. |
| Cyd-destun | Lefelau cynyddol o draffig, mwy o deithiau byr yn cael eu gwneud mewn ceir preifat, cynnydd mewn perchnogaeth ceir preifat, anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau lleol, ciwiau, tagfeydd ac oedi, cwynion am ansawdd y seilwaith cerdded a beicio, a gofynion o dan y Ddeddf Teithio Llesol. |
| Mewnbwn | • Dadansoddiad manwl<br>• Y gost o ddarparu'r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid.<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | • Arafu traffig;<br>• Rhoi blaenoriaeth i ddulliau teithio cynaliadwy. |

| | |
|---|---|
| Canlyniadau | • Mwy o gerddwyr a beicwyr, mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a llai o draffig;<br>• Llai o ddamweiniau ac anafiadau, yn arbennig o ran defnyddwyr ffordd sy'n agored i niwed. |
| Effaith | • Caiff y llif o gerddwyr a beicwyr, y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a llif traffig eu mesur gan arolygon cyfrif a chyfrifwyr awtomatig.<br>• Llai o ddamweiniau ac anafiadau, yn arbennig o ran defnyddwyr ffordd sy'n agored i niwed – Cofnodion damweiniau ac anafiadau'r heddlu. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau CDC) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy'n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. |

| **Cynllun** | **Cynlluniau Diogelwch Ffyrdd Cyffredinol** |
|---|---|
| Angen | Gwella diogelwch ar y ffyrdd i'r holl ddefnyddwyr. |
| Disgrifiad o'r project | Mae'r gwelliannau o ran diogelwch ar y ffyrdd yn cynnwys y canlynol:<br>• Gwelliannau i Gyffyrdd<br>• Arafu Traffig<br>• Gwella arwyddion a marciau ffordd |
| Amcanion | • Arafu traffig<br>• Gwella gwelededd<br>• Gwella ymwybyddiaeth o beryglon |
| Cyd-destun | Mae'r Ddeddf Traffig Ffyrdd yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ymchwilio i ddamweiniau ffordd a gweithredu mesurau i'w hatal yn sgîl yr ymchwiliadau hynny. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys peirianneg ac addysg. |
| Mewnbwn | • Dadansoddiad manwl<br>• Y gost o ddarparu'r gwelliannau i seilwaith a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid.<br>• Arolygon blaenorol a dilynol. |
| Allbwn | • Arafu traffig;<br>• Llai o ddamweiniau ac anafiadau |
| Canlyniadau | • Gwella diogelwch ar y ffyrdd i'r holl ddefnyddwyr. |

| | |
|---|---|
| Effaith | • Caiff cyflymder traffig ei fesur drwy arolygon cyflymder a chofnodwyr awtomatig;<br>• Lefelau llai o ddamweiniau ac anafiadau ar gyfer holl ddefnyddwyr y briffordd - Cofnodion damweiniau ac anafiadau'r heddlu. |
| Risgiau / gwersi a ddysgwyd | • Gwleidyddol (newid blaenoriaethau CDC) – alinio cynlluniau i flaenoriaethau LlC ac egwyddorion ehangach CDC sy’n cefnogi blaenoriaethau penodol.<br>• Cyllid (prosesau ymgeisio, oedi wrth gael gwybod am gyllid, diffyg cyllid ar gyfer projectau ategol, diffygion mewn unrhyw arian cyfatebol) - sicrhau bod ceisiadau'n rhesymol, cydlynol a phrydlon. Sicrhau y gall cynlluniau fynd rhagddynt heb brojectau ategol. Nodi opsiynau cyllido eraill.<br>• Canlyniadau ymgynghori (canlyniadau negyddol) – sicrhau bod manteision yn cael eu cyfleu'n effeithiol.<br>• Oedi wrth weithredu (caffael, cydlynu â phrojectau eraill, tywydd a chyflwr tir nas rhagwelwyd) - rheoli'r project yn effeithlon; llunio amserlenni gweithredu digonol. |
| Amserlen | Cynhelir adroddiad gwerthuso cyn gynted â phosibl ar ôl casglu data. Mae’n debygol o fod yn gyson ag Archwiliadau Diogelwch Ffyrdd a gaiff eu cynnal 1 a 3 blynedd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. |